Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Cod Ymgysylltu â Dysgwyr


Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 2
Cyflwyniad ..... 3
Sail statudol a rheoliadol ..... 3
Fframwaith Rheoleiddio ..... 3
Fframwaith Ansawdd ..... 4
Gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 5
Sut i ddefnyddio'r Cod ..... 8
Yr iaith a ddefnyddir yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 9
Manteision ymgysylltu â dysgwyr ..... 11
Egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr ..... 12
Ystyriaethau ar gyfer arferion ..... 13
Egwyddor 1: Wedi'i wreiddio ..... 14
Egwyddor 2: Yn Cael ei Werthfawrogi ..... 17
Egwyddor 3: Yn Cael ei Ddeall ..... 19
Egwyddor 4: Yn Gynhwysol ..... 21
Egwyddor 5: Yn Ddwyieithog ..... 23
Egwyddor 6: Yn Unigol ac yn Gyfunol ..... 25
Egwyddor 7: Yn Cael Effaith ..... 28
Egwyddor 8: Yn Cael Digon o Adnoddau ..... 30
Egwyddor 9: Yn Cael ei Werthuso ..... 32
Dull Monitro ..... 34
Casglu tystiolaeth yn barhaus: ..... 34
Ymyriadau Rheoleiddio ..... 35
Atodiad A Strwythur Enghreifftiol ar gyfer Ymrwymiad i Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 36

## Cyflwyniad

### Sail statudol a rheoliadol

1. Mae adran 129 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Medr baratoi a chyhoeddi'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr sy'n ymwneud â chynnwys dysgwyr ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwyr.

2. Mae ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:
    - cymryd rhan pan fydd eu darparwr yn gwneud penderfyniadau perthnasol
    - cael cynrychiolaeth effeithiol i'w lleisiau ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwr
    - rhoi eu barn ar yr addysg a roddir iddynt a materion sydd o bwys neu o ddiddordeb iddynt

3. Rhaid i ddysgwyr gael y cyfleoedd hyn i fod yn rhan o benderfyniadau eu darparwyr sydd o bwys neu o ddiddordeb iddynt.

4. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr sicrhau bod yr holl ddarparwyr cofrestredig yn cydymffurfio â gofynion y Cod yn barhaus, fel y nodir yn yr Amod Cofrestru cysylltiedig. Mae'r amod cydymffurfio hwn hefyd i'w weld yn yr Amod Cyllido cysylltiedig ar gyfer darparwyr a ariennir gan Medr. Mae adran 101 o'r Ddeddf yn nodi gofyniad i gorff llywodraethu chweched dosbarth ysgol a gynhelir gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

5. Felly, mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol a ariennir neu a reoleiddir gan Medr:
    - addysg bellach
    - addysg uwch
    - prentisiaethau
    - dysgu oedolion yn y gymuned
    - chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol

6. Bydd Medr yn cyflawni ei swyddogaethau gan ystyried pwysigrwydd diogelu'r rhyddid sydd gan ddarparwyr addysg yng Nghymru o fewn y gyfraith i ymgymryd â'u gwaith rheoli o ddydd i ddydd mewn ffordd effeithiol a chymwys. Ni ddylid dehongli bod dim byd yn y dogfennau rheoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu darparwr addysg drydyddol wneud unrhyw beth sy'n mynd yn groes i unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy'n berthnasol i'r corff llywodraethu yn rhinwedd ei rôl fel elusen, neu'n groes i ddogfennau llywodraethu'r darparwr.

### Fframwaith Rheoleiddio

7. Mae'r Cod yn rhan o fframwaith rheoleiddio Medr, sy'n seiliedig ar ein Dull Rheoleiddio. Fel rheoleiddiwr, rydym yn anelu at weithredu mewn ffordd gytbwys sy'n gymesur ac yn seiliedig ar risg, ond sydd hefyd yn disgwyl safonau uchel ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

8. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr yn y sector addysg drydyddol gynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn ei brosesau gwneud penderfyniadau ac felly mae'n cwmpasu'r fframwaith rheoleiddio gan gynnwys disgwyliadau ar gyfer gwahanol amodau rheoleiddio. Ni fydd Medr yn monitro'r un amod ar ei ben ei hun ac felly bydd yn ystyried gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr mewn modd cyfannol, gan gyfeirio at dystiolaeth o bob rhan o'r fframwaith.

## Fframwaith Ansawdd

9. Mae Fframwaith Ansawdd Medr yn nodi polisi ac ymarfer mewn perthynas ag ansawdd addysg drydyddol. Mae'n elfen allweddol er mwyn helpu Medr i gyflawni ei nod strategol i sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn sector addysg drydyddol sy'n ymdrechu i wella'n barhaus. Yn yr un modd â'r Cod, mae'r Fframwaith Ansawdd yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol a gyllidir neu a reoleiddir gan Medr.

10. Mae'r Fframwaith Ansawdd yn cynnwys cyfres o gonglfeini sy'n nodi ffyrdd y gall darparwyr ddangos ansawdd da, ac rydym yn disgwyl iddynt arwain at ddeilliannau da i ddysgwyr. Mae'r conglfaen yn y Fframwaith Ansawdd sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dysgwyr yn canolbwyntio ar ymgysylltu â dysgwyr ym mhrosesau a gweithredoedd eu darparwyr i sicrhau a gwella ansawdd eu profiad dysgu. Disgwylir i ddarparwyr roi'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ar waith fel rhan o hyn. Fel rhan o'r conglfaen hwn, mae Medr yn ymrwymo i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr yn y sector drwy fuddsoddi mewn adnoddau a chymorth, gan gynnwys hyfforddiant a chanllawiau wedi'u teilwra yn unol ag anghenion gwahanol rannau o'r sector addysg drydyddol. Mae Medr hefyd yn ymrwymo i weithio gyda dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i adnabod a rhannu arferion da ym maes ymgysylltu â dysgwyr. Disgwylir i sefydliadau sy'n gyfrifol am arolygu ac adolygu ymgysylltu â dysgwyr ac ystyried eu safbwyntiau.

## Gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

**Rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr wneud y canlynol:

- cydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol)
- cyflwyno tystiolaeth i ddangos cydymffurfedd â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a'i effaith

**Rhaid** i ddarparwyr gyhoeddi ymrwymiad i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion y Cod.

11. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru gyhoeddi ymrwymiad i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion y Cod.
    - Rhaid i'r ymrwymiad gael ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn ystod y flwyddyn academaidd lawn gyntaf pan fydd y Cod yn berthnasol i'r darparwr
    - Rhaid ymgysylltu â dysgwyr wrth ddatblygu'r ymrwymiad
    - Rhaid ymgysylltu â dysgwyr wrth gynnal yr adolygiad blynyddol o'r ymrwymiad
    - Rhaid i'r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) roi cadarnhad bod yr ymrwymiad wedi cael ei adolygu i Medr yn flynyddol, fel rhan o’r ffurflenni sicrwydd blynyddol
    - Rhaid rhannu enghreifftiau o'r effaith sy'n deillio o adolygu'r ymrwymiad a gwerthuso gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr â Medr yn flynyddol, fel rhan o’r ffurflenni sicrwydd blynyddol. Bydd y gofyniad hwn yn dechrau yn dilyn yr adolygiad cyntaf o'r ymrwymiad
    - Rhaid i'r darparwr hyrwyddo'r ymrwymiad mewn ffyrdd hygyrch i ddysgwyr.

12. Lle bynnag y bydd corff cynrychioli dysgwyr yn bodoli, **rhaid** i'r darparwr weithio mewn partneriaeth ag ef i wneud y canlynol:
    - llunio'r ymrwymiad ar y cyd
    - adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
    - ei hyrwyddo mewn ffyrdd hygyrch i ddysgwyr drwy sianeli'r darparwr a'r corff cynrychioli dysgwyr

13. Lle bynnag y bydd corff cynrychioli dysgwyr yn bodoli, **rhaid** iddo lofnodi'r ymrwymiad i gadarnhau'r gofynion uchod mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth.

14. Defnyddir y term ‘ymrwymiad’ i gyfleu diben y ddogfen. Ni fydd yn rhaid i'r darparwr a'i ddysgwyr ddefnyddio'r un enw. Mae'n bosibl y bydd gan rai darparwyr gyhoeddiadau sydd eisoes yn bodoli y gellid ychwanegu'r ymrwymiad hwn atynt, neu efallai y bydd darparwyr a dysgwyr yn dewis datblygu ymrwymiad pwrpasol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau. Mae Atodiad A yn cynnwys strwythur enghreifftiol er gwybodaeth.

15. Dylai'r ymrwymiad cyhoeddedig fod yn ddogfen lefel uchel sy'n cynnwys cyfeiriadau a dolenni i ragor o wybodaeth gan gynnwys cynlluniau, polisïau ac adnoddau lle bo hynny'n berthnasol, ac rydym yn rhagweld y bydd y rhain wedi'u teilwra yn unol â strwythurau'r darparwr, ei gyd-destun lleol ac anghenion ei ddysgwyr.

16. **Rhaid** i'r ymrwymiad gynnwys y canlynol:

- Esboniad o'r ffordd y **bydd** y darparwr yn gwreiddio ac yn cefnogi gweithgareddau i ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Ni fydd angen rhestru sut y bydd y darparwr yn bwriadau bodloni pob egwyddor yn unigol
- **Bydd** esboniad o'r ffyrdd y mae'r darparwr wedi ymgysylltu â dysgwyr wrth ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad a sut y caiff safbwyntiau carfannau dysgwyr amrywiol, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n dewis cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn cael eu hystyried
- Manylion ynghylch pa ddysgwyr y mae'r ymrwymiad yn berthnasol iddynt, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu drwy drefniadau is-gontractio neu freinio

17. Lle bynnag y bydd corff cynrychioli dysgwyr (fel y disgrifir ym mharagraff 30) yn bodoli, **rhaid** i'r ymrwymiad hefyd gynnwys:

- Esboniad o'r ffordd y mae'r darparwr a'r corff cynrychioli dysgwyr yn gweithio mewn partneriaeth i wreiddio a chefnogi gweithgareddau i ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr gytundeb manylach ar wahân sy'n esbonio eu cydberthynas a'u ffyrdd o weithio. Os felly, **rhaid** cyfeirio ato yn yr ymrwymiad er mwyn osgoi dyblygu
- Esboniad o'r ffordd y mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â'r corff cynrychioli dysgwyr i ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad

18. Gweithgareddau i ymgysylltu â dysgwyr wrth ddatblygu, adolygu a hyrwyddo'r ymrwymiad:

- **Rhaid** i ddarparwyr ddangos yn yr ymrwymiad sut y caiff safbwyntiau eu carfannau dysgwyr amrywiol, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig ac anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n dewis cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg, eu hystyried wrth ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad
- Lle bynnag y bydd corff cynrychioli dysgwyr yn bodoli, **rhaid** i'r darparwr ei helpu i gynrychioli safbwyntiau ei garfannau dysgwyr amrywiol wrth lunio'r ymrwymiad ar y cyd a'i adolygu

19. Adolygu'r ymrwymiad:

- **Rhaid** adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol; bydd corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) y darparwr yn rhoi cadarnhad o hyn i Medr drwy ei Ffurflen Sicrwydd Flynyddol ar ôl y flwyddyn academaidd lawn gyntaf pan fydd y Cod yn berthnasol i'r darparwr
- **Rhaid** i adolygiad o'r ymrwymiad gynnwys gwerthusiad o effeithiolrwydd ac effaith y gweithgareddau cysylltiedig i ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau; caiff deilliannau'r adolygiad eu rhannu â Medr drwy Ffurflen Sicrwydd Flynyddol y darparwr yn dilyn yr adolygiad cyntaf

20. Bydd gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr ar eu mwyaf effeithiol pan gânt eu harwain gan anghenion dysgwyr, felly nid oes un dull “cywir” o ymgysylltu â

dysgwyr, yn enwedig yn y sector addysg drydyddol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddysgwyr a lleoliadau. Mae Medr yn annog arloesedd wrth ymgysylltu â dysgwyr er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a darparwyr, ac ysgogi gwelliant parhaus. Er mwyn galluogi hyn, mae'r Cod wedi'i lunio'n fwriadol i beidio â bod yn rhagnodol ynglŷn ag arferion i gynnwys dysgwyr ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwyr, na'r dulliau penodol y mae'n **rhaid** i ddarparwyr eu defnyddio. Yn lle hynny, rydym yn gweithredu'n seiliedig ar egwyddorion, gan ganolbwyntio'n bennaf ar **effaith** ymgysylltu â dysgwyr. Caiff effaith ei harchwilio drwy lais y dysgwr, enghreifftiau o arferion a'r effaith a gânt ar ddysgwyr a phrofiad dysgwyr.

21. Caiff dulliau o ymgysylltu â dysgwyr eu llywio gan faint, cenhadaeth, demograffeg dysgwyr a mathau o ddarpariaeth pob darparwr, yn ogystal â'i hanes a'i brofiad unigryw o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau – a hynny i gyd yn seiliedig ar anghenion y dysgwyr. Rydym yn deall y caiff natur yr ymgysylltu ei llywio gan y cyd-destun y bydd y dysgu'n digwydd ynddo; er enghraifft, bydd profiadau prentisiaid yn dibynnu'n bennaf ar ddisgwyliadau eu cyflogwyr a'u cyfrifoldebau yn y gweithle, ac mae'n bosibl y bydd y strwythurau priodol ar gyfer eu cynrychioli a chael adborth ganddynt yn edrych yn wahanol i'r rhai sy'n addas ar gyfer dysgwyr sydd ar gampysau neu mewn canolfannau.

22. Mae Medr yn cydnabod y bydd darparwyr yn dechrau o fannau gwahanol ar eu taith tuag at ymgysylltu'n effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, a byddwn yn rheoleiddio mewn modd cymesur yn y cyd-destun hwnnw. **Bydd** disgwyl i bob darparwr werthuso ei weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr er mwyn ei helpu i wella'n barhaus. Rydym yn deall mai rhywbeth sy'n ymwneud â diwylliant yw ymgysylltu'n effeithiol â dysgwyr, yn hytrach na phroses linol, y bydd yn dod o hyd i bethau nad ydynt yn gweithio ac, mewn rhai achosion, mai dim ond dros amser y daw'r gwir effaith i'r amlwg. Rydym am gael deialog dryloyw â darparwyr er mwyn deall y llwyddiannau a gânt a'r heriau a fydd yn eu hwynebu wrth gyflawni eu hymrwymiadau. Felly, gall y dystiolaeth a gyflwynir i ategu cydymffurfedd â'r Cod gynnwys enghreifftiau lle mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo, neu lle roedd effaith yr ymgysylltu â dysgwyr yn wahanol i'r disgwyl.

23. Nod Medr yw cefnogi hyn ar lefel darparwyr ac ym mhob rhan o'r sector, drwy'r Cod, drwy gyhoeddi enghreifftiau o arweiniad ac arferion effeithiol, a thrwy gyllido prosiectau a arweinir gan sefydliadau sydd â phrofiad ac arbenigedd perthnasol. Bydd y gweithgareddau hyn yn helpu Medr a'r sector i fodloni'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr sydd wedi cael eu datblygu gyda dysgwyr a'u hysgrifennu o'u safbwynt nhw, gan adlewyrchu nod strategol Medr i sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr.

## Sut i ddefnyddio'r Cod

24. Datblygwyd y Cod er mwyn cefnogi dulliau mawr eu heffaith o gynnwys dysgwyr addysg drydyddol yng Nghymru ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwyr, gan lywio profiad y dysgwyr a'r amgylchedd dysgu a'u gwella'n barhaus. Mae'r Cod yn rhan o fframweithiau rheoleiddio ac ansawdd Medr sy'n cynnwys gofynion rheoleiddio i bob darparwr addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Bwriedir iddo fod yn adnodd a ddefnyddir gan ddarparwyr, gyda'u dysgwyr a'u cyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli), i ddatblygu, gwerthuso a gwella gweithgareddau i gynnwys dysgwyr ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwyr. Mae'r Cod yn nodi'r elfennau sydd ynghlwm wrth ymgysylltu â dysgwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar ffurf egwyddorion. Caiff yr egwyddorion eu mynegi o safbwynt dysgwyr, gan sicrhau yr ymgysylltir â dysgwyr mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion.

25. Mae'r Cod wedi'i integreiddio yn y fframwaith rheoleiddio drwy Amod Cofrestru ac Amod Cyllido; mae dyletswydd statudol[1] ar chweched dosbarth ysgolion a gynhelir i gydymffurfio â gofynion y Cod. Mae'r Cod yn berthnasol i holl ddarpariaeth addysg drydyddol darparwyr addysg drydyddol sydd wedi'u cofrestru a/neu a gyllidir, gan gynnwys darpariaeth ar eu rhan, er enghraifft drwy drefniadau is-gontractio neu freinio lle bynnag y bônt ar waith. Pan fydd darparwr sydd wedi'i gofrestru neu a gyllidir yn ymrwymo i drefniant dilysu (yn unol â'r Amod: Trefniadau Dilysu) **rhaid** iddo gael sicrwydd bod gan ei bartner drefniadau sy'n cyd-fynd â gofynion y Cod, lle bynnag y bo modd. Caiff yr holl weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr eu hystyried yng nghyd-destun y darparwyr a'u rheoleiddio'n gymesur.

26. Rhaid i'r holl ddarparwyr addysg drydyddol a gyllidir neu a reoleiddir gan Medr gyhoeddi **ymrwymiad i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau** yn unol ag egwyddorion y Cod. Er hwylustod, caiff yr egwyddorion eu hamlygu'n borffor drwy'r Cod cyfan. Mae gan bob un o'r egwyddorion destun ategol er mwyn helpu darparwyr i ystyried yr elfennau allweddol y bydd angen eu cyflawni er mwyn cysoni eu harferion â nhw. Er arweiniad y rhoddir y wybodaeth hon, a **dylai'r** holl ddarparwyr roi sylw iddi. Er hwylustod, caiff yr arweiniad ei amlygu'n felyn drwy'r Cod cyfan. Bydd dogfennau briffio ychwanegol yn ategu'r Cod, gan roi arweiniad cyd-destunol ar arferion da sy'n benodol i bob rhan o'r sector.

27. Mae'r enghreifftiau a'r cwestiynau myfyriol yn rhoi cymorth pellach i ddarparwyr a dysgwyr er mwyn iddynt gyd-fynd â'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr a gwerthuso a gwella eu harferion presennol. Nid yw'r wybodaeth yn rhagnodol ac nid yw'n rhan o ofynion na chanllawiau statudol y Cod. Bydd y cwestiynau myfyriol yn helpu dysgwyr, cyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) a darparwyr i fynd ati ar y cyd i werthuso i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'r egwyddorion. Bydd yr enghreifftiau o arferion yn helpu i gyfleu'r hyn y mae'r egwyddorion yn ei olygu yn ymarferol; bydd yn ddefnyddiol ystyried y rhain yng nghyd-destun penodol pob darparwr. Efallai y bydd rhai arferion yn benodol i wahanol rannau o'r sector ac mae'n bosibl y bydd arweiniad a disgwyliadau ychwanegol y tu hwnt i'r Cod yn cyd-fynd â nhw. Bydd y cymorth a'r arweiniad yn datblygu dros amser, gan ymhelaethu ar yr enghreifftiau o arferion i gynnwys astudiaethau achos o'r sector ac adeiladu ar adnoddau mewn ymateb i anghenion y sector a thrwy brosiectau a ariennir gan Medr sy'n hwyluso cymorth a chydweithio ym maes ymgysylltu â dysgwyr.

[1] Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 101 (3)

## Yr iaith a ddefnyddir yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

28. At ddibenion cylch gwaith Medr a chwmpas ei weithgareddau, yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae'r diffiniad o 'ymgysylltu â dysgwyr' yn cwmpasu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan wrth i'w darparwr wneud penderfyniadau perthnasol, gan sicrhau y caiff dysgwyr eu cynrychioli'n effeithiol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr a sicrhau y caiff dysgwyr gyfleoedd i rannu eu barn â'u darparwr ar yr addysg a roddir iddynt a materion sydd o bwys neu o ddiddordeb iddynt. Nid yw'r diffiniad o ymgysylltu â dysgwyr, at ddibenion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (y Cod), yn cyfeirio at bresenoldeb, cymhelliant nac ymrwymiad unigolyn i'w ddysgu ei hun.

29. **'Dysgwr'** yw'r term cyfunol a ddefnyddir i ddisgrifio unigolion sy'n dysgu yn y sector addysg drydyddol mewn amrywiaeth eang o leoliadau gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, gweithleoedd a chymunedau. Yn aml, caiff termau mwy penodol eu defnyddio mewn gwahanol rannau o'r sector addysg drydyddol, megis 'myfyriwr', 'disgybl', 'prentis' neu 'ymchwilydd doethurol'. Lle y bo'n briodol (er enghraifft, mewn astudiaethau achos, dogfennau briffio neu adnoddau sy'n gysylltiedig ag un rhan o'r sector), rydym wedi defnyddio'r term sy'n gyffredin i ran benodol o'r sector.

30. **'Corff cynrychioli dysgwyr'** yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r prif strwythurau ffurfiol a ddefnyddir er mwyn i ddysgwyr gael eu cynrychioli'n gyfunol gan eu cymheiriaid. Mae hyn yn cynnwys undebau myfyrwyr annibynnol, undebau myfyrwyr a gefnogir gan staff darparwyr a chynghorau ysgol/dysgwyr.

- **Undebau myfyrwyr annibynnol**. Mae Deddf Addysg 1994 yn diffinio undebau myfyrwyr fel cymdeithasau myfyrwyr y mae eu prif ddiben yn cynnwys cynrychioli eu haelodau, sef myfyrwyr, a hyrwyddo eu buddiannau. Mae gan bob prifysgol yng Nghymru Undeb Myfyrwyr annibynnol, a gaiff ei arwain yn ddemocrataidd gan fyfyrwyr ac sy'n gweithredu ar wahân i'r brifysgol. Mae Undeb Myfyrwyr yn cynrychioli ac yn cefnogi myfyrwyr, dan arweiniad myfyrwyr a gaiff eu hethol i fod yn swyddogion. Yn unol â Deddf Addysg 1994, **rhaid** i'r undeb gael cyfansoddiad cymeradwy, cael ei redeg yn ddemocrataidd, bod yn atebol yn ariannol a chynnig proses gwyno glir, tra bo gan fyfyrwyr hawl i beidio ag ymuno ag ef. Elusennau yw'r undebau myfyrwyr annibynnol yng Nghymru, sy'n golygu bod yn **rhaid** i'w hymddiriedolwyr ddilyn rheolau elusennau a gweithredu er budd pennaf yr undeb. Undebau myfyrwyr annibynnol yw'r prif ddull ffurfiol y gall prifysgolion ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r corff myfyrwyr, a **rhaid** iddynt fod yn rhan ganolog o broses y brifysgol o roi'r Cod ar waith

- **Undebau myfyrwyr a gefnogir gan staff darparwyr**. Mae gan ddarparwyr addysg uwch llai a rhai sefydliadau addysg bellach yng Nghymru undebau myfyrwyr fel y'u diffinnir yn Neddf Addysg 1994. Yn wahanol i'r rhai a welir mewn prifysgolion, nid sefydliadau annibynnol yw'r rhain ac, yn hytrach na gweithredu ar wahân i'r darparwr addysg, caiff cynrychiolwyr dysgwyr etholedig eu cefnogi gan staff y darparwr. Bydd swyddogion myfyrwyr/cynrychiolwyr dysgwyr yn aml yn cyflawni rolau ochr yn ochr â'u hastudiaethau ac nid fel swyddi amser llawn. Er nad cyrff annibynnol yw'r rhain, **dylid** eu cydnabod fel y prif ddull o gynrychioli llais y dysgwr yn gyfunol a **dylid** eu helpu i gynrychioli eu haelodaeth amrywiol o blith y dysgwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig

- **Cynghorau dysgwyr**. Caiff cynghorau dysgwyr eu sefydlu mewn amrywiaeth o leoliadau addysg drydyddol. Mae'n bosibl y bydd enwau eraill arnynt, megis senedd, cymdeithas neu grŵp gweithredol dysgwyr. Maent yn cynnig lle i ddysgwyr gael eu cynrychioli'n gyfunol. **Dylid** cydnabod cynghorau dysgwyr fel y prif ddull o gynrychioli llais y dysgwr yn gyfunol a **dylid** eu helpu i gynrychioli poblogaeth dysgwyr amrywiol y darparwr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig

- **Cynghorau ysgol**. Yn unol â Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005, '**rhaid** i gorff llywodraethu ysgol sefydlu cyngor ysgol, a'i ddiben yw galluogi disgyblion i drafod materion ynglŷn â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw fater arall y maent yn ymboeni amdano neu sydd o ddiddordeb ac i wneud sylwadau arnynt i'r corff llywodraethu a'r pennaeth.' Mae disgyblion chweched dosbarth yn aelodau o'r cyngor ysgol gyfan; mae'n bosibl y bydd cyngor neu grŵp gweithredol chweched dosbarth ar wahân hefyd

31. **'Darparwr'** yw'r term a ddefnyddir gennym i gwmpasu'r amrywiaeth o sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflwyno addysg drydyddol ac ymchwil, sef prifysgolion, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddysgu oedolion yn y gymuned a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir.

32. Term cyffredinol sy'n cwmpasu'r holl benderfyniadau a wneir gan ddarparwr ac sydd o bwys neu o ddiddordeb i ddysgwyr yw **'prosesau gwneud penderfyniadau darparwyr'**. **Dylai** hyn gynnwys y penderfyniadau hynny sy'n gysylltiedig ag ansawdd addysg drydyddol, profiadau dysgwyr o'r addysgu a'r dysgu, penderfyniadau strategol a wneir gan y darparwr sy'n cael effaith ar ddysgwyr, ac unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'r profiad dysgwyr ehangach. Ymgysylltir â dysgwyr mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol adegau mewn perthynas â'r amrywiaeth o benderfyniadau y bydd eu darparwr yn eu gwneud. Bydd hyn yn amrywio o ymgynghori a defnyddio adborth gan ddysgwyr, i ddulliau o weithio mewn partneriaeth. Ceir penderfyniadau lle na fydd bob amser yn briodol ymgysylltu â dysgwyr (heblaw'r unigolyn fel y bo angen). Gall hyn gynnwys pan fydd penderfyniadau'n ymwneud â dysgwr unigol, ei lesiant, ei ymddygiad neu ei berfformiad academaidd ac, yn yr un modd, pan gaiff penderfyniadau eu gwneud ynglŷn â materion personol sy'n ymwneud ag aelod o staff.

33. Gall y mathau o benderfyniadau y bydd darparwyr yn eu gwneud fod yn gysylltiedig â newidiadau strategol mawr, neu faterion ymarferol sy'n effeithio ar brofiadau dysgwyr o ddydd i ddydd. Ymhlith yr enghreifftiau posibl o feysydd lle y **dylid** ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau mae:

    - sicrwydd a gwella ansawdd y profiad dysgu
    - datblygu a gwerthuso cyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau
    - datblygu a gwerthuso strategaethau a pholisïau sy'n effeithio ar ddysgwyr, megis y rhai sy'n ymwneud â phresenoldeb, disgyblaeth, llesiant a chydraddoldeb
    - gwelliannau i'r amgylchedd a'r adnoddau dysgu
    - datblygu a gwerthuso gwasanaethau cymorth i ddysgwyr
    - ymgysylltu â phrosesau sicrhau ansawdd a rheoleiddio allanol
    - cynlluniau diogelu dysgwyr

## Manteision ymgysylltu â dysgwyr

34. Bydd ymgysylltu'n effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau yn arwain at fanteision i ddysgwyr y presennol a'r dyfodol, i ddarparwyr ac i'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

35. Bydd **dysgwyr**, yn unigol, sef y dysgwyr hynny sy'n cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac sy'n cyflawni rolau fel cynrychiolwyr, llywodraethwyr neu arweinwyr, yn cael cyfleoedd i wneud y canlynol:

- datblygu sgiliau a chymwyseddau ychwanegol
- gwella eu profiad dysgu eu hunain
- creu cysylltiadau cymdeithasol
- dyfnhau eu hymdeimlad o berthyn i'w darparwr

36. Bydd **dysgwyr**, yn gyfunol, yn cael budd o'r canlynol:

- profiad dysgu sy'n seiliedig ar eu hanghenion ac yn ymatebol iddynt
- cyfleoedd cydgysylltiedig i gael eu clywed gan leihau'r baich ar unigolion
- gwelliannau a fydd o fudd i garfannau dysgwyr y dyfodol

37. Bydd **darparwyr a'r sector addysg drydyddol** yn cael cyfleoedd i gael budd drwy'r canlynol:

- gwell dealltwriaeth o anghenion dysgwyr er mwyn arwain gwelliant parhaus o ran ansawdd a phrofiad dysgwyr
- effeithiau cadarnhaol ar lefelau boddhad, cadw a llwyddiant dysgwyr
- dysgwyr yn adnabod rhwystrau a heriau i ategu penderfyniadau strategol a chamau gweithredol darparwyr
- adborth gan ddysgwyr fel tystiolaeth werthfawr i lywio prosesau hunanwerthuso ac ansawdd

## Egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr[2]

**Mae ymgysylltu â dysgwyr:**

1. **Wedi'i wreiddio**: Mae cyfleoedd i mi gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau fy narparwr wedi'u plethu drwy bob agwedd ar fy nhaith addysgol a thrwy'r holl benderfyniadau sy'n effeithio arnaf fi, fy nghymheiriaid a dysgwyr y dyfodol.
2. **Yn Cael ei Werthfawrogi**: Mae fy narparwr yn gwrando arnaf ac yn fy ngrymuso i lywio fy holl brofiad dysgu drwy gymryd rhan yn ei brosesau gwneud penderfyniadau.
3. **Yn Cael ei Ddeall**: Rwy'n gwybod ble a sut i godi syniadau a rhannu meddyliau ynglŷn â phynciau sy'n bwysig i mi a phynciau a gaiff eu codi gan fy narparwr addysg.
4. **Yn Gynhwysol**: Mae'r cyfleoedd i mi a dysgwyr eraill gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn adlewyrchu ein hamrywiol anghenion, diddordebau a galluoedd i gymryd rhan.
5. **Yn Ddwyieithog**: Rwy'n gallu cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rwy'n cael cyfleoedd i fod yn rhan o ddull fy narparwr addysg o ymdrin â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ffordd y mae'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
6. **Yn Unigol ac yn Gyfunol**: Yn ychwanegol at y cyfleoedd i mi gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau fy narparwr, fel dysgwyr cawn ein helpu i rannu ein lleisiau â'n gilydd i gymryd rhan yn gyfunol mewn prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn llywio'r profiad dysgu.
7. **Yn Cael Effaith**: Rwy'n cymryd rhan fel rhan o ddeialog barhaus lle y caiff deilliannau a newidiadau eu trafod a'u hadolygu, ac mae pob un ohonom yn gallu gweld effaith hyn ar y profiad dysgu nawr ac ar gyfer dysgwyr y dyfodol.
8. **Yn Cael Digon o Adnoddau**: Mae fy narparwr addysg yn dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau y caiff yr holl ddysgwyr gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.
9. **Yn Cael ei Werthuso**: Mae fy narparwr addysg yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso'r ffordd y mae'n ymgysylltu â ni fel dysgwyr a ph'un a yw hyn yn bodloni ein disgwyliadau ai peidio. Mae'n gweithio gyda ni i adnabod beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wneud yn well, ac i ddatblygu newidiadau er mwyn gwella.

[2] Mae'r adrannau sydd wedi'u hamlygu'n borffor yn dynodi egwyddorion y Cod y mae'n rhaid i ddarparwyr eu dilyn yn eu hymrwymiad i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr.

## Ystyriaethau ar gyfer arferion

38. Mae'r adran ganlynol o'r Cod yn rhoi gwybodaeth er mwyn helpu darparwyr i sicrhau bod eu harferion a'u hymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr yn gyson ag egwyddorion y Cod. Nod yr adran hon yw rhoi mwy o eglurder ynghylch yr egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, dod â nhw'n fyw drwy enghreifftiau o arferion a helpu i werthuso drwy ofyn cwestiynau myfyriol.

39. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darparwr addysg drydyddol a bwriedir i'r wybodaeth yn yr adran hon adlewyrchu natur amrywiol dysgwyr, dysgu a darparwyr addysg drydyddol. Mae'r enghreifftiau'n adlewyrchu ehangder y dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu'n effeithiol â dysgwyr mewn gwahanol leoliadau, ond nid ydynt yn ofynnol o dan y Cod nac yn arferion y disgwylir i bob darparwr ymgymryd â nhw. Caiff rhagor o wybodaeth gyd-destunol a dolenni i adnoddau eu cynnwys yn y dogfennau briffio unigol ar gyfer pob rhan o'r sector.

40. Nid yw'r egwyddorion yn gweithio ar eu pen eu hunain, ac maent yn ategu ei gilydd â phwyntiau cydgyfeirio. Felly, y bwriad yw yr ymdrinnir â nhw mewn modd cyfannol er mwyn arwain dulliau darparwyr o ymgysylltu â dysgwyr. Ni fydd angen i ni weld tystiolaeth o gysondeb â'r egwyddorion unigol na chyfeiriadau atynt yn ymrwymiadau darparwyr i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau.

41. Gall darparwyr, dysgwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) ddefnyddio'r adran hon i ddatblygu dulliau o ymgysylltu â dysgwyr ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwr, gwerthuso'r dulliau hynny a'u gwella'n barhaus. Caiff yr adran hon a'r dogfennau briffio cysylltiedig eu datblygu dros amser gan ymateb i anghenion ac arferion yn y sector wrth iddynt ddatblygu. Bydd hyn yn cynnwys ychwanegu rhagor o enghreifftiau ac astudiaethau achos a chyfeirio at ganllawiau ac adnoddau a ariennir gan Medr ac a fydd ar gael i'r sector.

42. Bydd Medr yn adolygu'r Cod a'i Amod cysylltiedig yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag anghenion y sector wrth iddynt ddatblygu, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

**Egwyddor 1: Wedi'i wreiddio**

**Mae cyfleoedd i mi gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau fy narparwr wedi'u plethu drwy bob agwedd ar fy nhaith addysgol a thrwy'r holl benderfyniadau sy'n effeithio arnaf fi, fy nghymheiriaid a dysgwyr y dyfodol**

Caiff dysgwyr gyfleoedd i gymryd rhan ym mhrosesu eu darparwr ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu profiad dysgu nhw a dysgwyr y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn â'r dysgu a'r addysgu, ansawdd eu cwrs, eu hamgylchedd dysgu, a phenderfyniadau strategol perthnasol a wneir gan eu darparwr. Ni fydd rhai mathau o brosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar lesiant, cynnydd academaidd neu ymddygiad dysgwr unigol, bob amser yn berthnasol i ddysgwyr eraill gymryd rhan ynddynt. Pan fydd y darparwr o'r farn bod mathau o benderfyniadau'n amherthnasol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, **dylid** rhannu'r sail resymegol dros hynny â'r dysgwyr a'r cyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli), gan gynnig cyfle i apelio yn erbyn y sail honno.

**Dylai** dysgwyr gael cyfleoedd i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwr ar bob lefel, gan gynnwys penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'u cwrs, maes pwnc neu grŵp o gyrsiau, yr amgylchedd, cyfleusterau (gan gynnwys adnoddau digidol) a chymorth y gallent gael gafael arnynt, a phenderfyniadau strategol sy'n effeithio ar holl ddysgwyr y darparwr neu'r ddarpariaeth. **Dylid** cynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau sy'n cwmpasu taith gyfan y dysgwr, gan gynnwys pontio i mewn i'r darparwr, drwyddo ac allan ohono.

Er bod egwyddorion y Cod yn nodi y **dylai** darparwr gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i'r holl ddysgwyr gymryd rhan yn ei brosesau gwneud penderfyniadau neu gael eu cynrychioli ynddynt, nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gymryd rhan ac mae'n bosibl y byddant yn dewis peidio â gwneud hynny.

## Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

### Enghraifft 1: Strategaeth Darparwr ar gyfer Ymgysylltu â Dysgwyr

Mae'r enghraifft hon yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol a dylid ei hystyried yng nghyd-destun penodol darparwr. Pan ddefnyddir enwau strategaethau a phwyllgorau, gellir eu disodli ag enghreifftiau amgen perthnasol.

Mae darparwr yn datblygu, yn adolygu ac yn cynnal Strategaeth Ymgysylltu â Dysgwyr gan ddefnyddio mewnbwn gan ddysgwyr a staff.

Mae'r strategaeth yn ystyried yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u modd, lefel a lleoliad astudio, gan ystyried nodweddion dysgwyr (er enghraifft, anghenion dysgu ychwanegol) a chyfle cyfartal. Mae'r strategaeth yn nodi'r cyfrifoldebau i ddysgwyr a staff ar bob lefel gynnig cyfleoedd effeithiol i ddysgwyr gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr ac i'w safbwyntiau gael eu clywed ac i gamau gael eu cymryd mewn ymateb i hynny lle bynnag y bo modd.  Gall y staff gael arweiniad er mwyn eu helpu i sicrhau eu bod yn deall yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud.

Mae'r strategaeth yn nodi dulliau clir a hygyrch o ymdrin â llais y dysgwyr ac ymgysylltu â dysgwyr a'r ffordd y bydd dysgwyr yn bwydo i mewn i strwythur llywodraethu a phrosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr. Mae'n cynnwys enghreifftiau o'r mathau o benderfyniadau na fyddai dysgwyr yn cael eu cynnwys ynddynt fel arfer, er enghraifft penderfyniadau ynglŷn â chynnydd dysgwyr unigol, a rhoddir sail resymegol dros y penderfyniadau hyn. Mae'r strategaeth yn amlinellu strwythur llywodraethu'r darparwr, gan ddangos y llwybrau ar gyfer gwneud penderfyniadau a lle bo dysgwyr yn aelodau o bwyllgorau a byrddau.

Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol gyda dysgwyr a staff, ac mae'n eiddo i Bwyllgor Profiad Dysgwyr y darparwr. Mae'r strategaeth yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu i wella'r ffordd yr ymdrinnir â llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr yn barhaus, ac i fynd i'r afael â bylchau y deuir o hyd iddynt drwy adolygu ei heffeithiolrwydd. Mae hefyd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd yn galluogi'r darparwr i werthuso effeithiolrwydd ei strategaeth.

**Enghraifft 2: Strwythurau Cynrychioli Dysgwyr**

Daw'r enghraifft hon o sefydliad addysg uwch. Gwelir cynrychiolwyr cwrs neu ddosbarth ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol ar wahanol ffurfiau a graddfeydd. Mewn addysg uwch, yr Undeb Myfyrwyr, gan weithio mewn partneriaeth â'i brifysgol, fydd fel arfer yn gyfrifol am ethol, cefnogi a gweinyddu strwythurau cynrychioli.

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, bydd pob dosbarth yn ethol o leiaf un cynrychiolydd dosbarth. Caiff y broses hon ei hwyluso gan y tîm cyrsiau, a fydd yn rhannu gwybodaeth am y rôl, fel y'i darperir gan yr Undeb Myfyrwyr, ac yn cynnig lle yn ystod sesiynau a addysgir i fyfyrwyr hunanenwebu ar gyfer etholiad. Caiff enw pob cynrychiolydd ei rannu â'r Undeb Myfyrwyr, a fydd yn dosbarthu Llawlyfrau i Gynrychiolwyr Dosbarth ac yn gwahodd yr holl gynrychiolwyr i sesiynau hyfforddi a gynhelir ar y campws ac ar-lein. Caiff cynrychiolwyr dosbarth eu gwahodd i gyfarfod tymhorol eu cyrsiau i rannu adborth gan ddysgwyr, gwneud sylwadau ar eitemau a godir gan y darparwr a chymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir. Bydd cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael yn yr amgylchedd dysgu rhithwir a chânt eu bwydo i bwyllgorau'r adrannau. O'r gronfa o gynrychiolwyr dosbarth, bydd yr Undeb Myfyrwyr yn cynnal etholiad pellach ar gyfer cynrychiolwyr adran a fydd yn eistedd ar bwyllgorau'r adrannau ac yn gweithio gyda'r cynrychiolwyr dosbarth i gasglu a rhannu adborth o bob rhan o'u hadrannau. Bydd yr Undeb Myfyrwyr hefyd yn penodi cynrychiolwyr ysgol, a fydd yn cynrychioli myfyrwyr o bob rhan o ysgol gyfan, gan fynychu cyfarfodydd tymhorol Pwyllgorau Cyswllt Myfyrwyr a Staff sy'n bwydo i mewn i Bwyllgor Profiad Myfyrwyr y brifysgol, y bydd Is-lywydd Addysg yr Undeb Myfyrwyr yn aelod ohono. Mae'r dull cynrychioli haenog hwn yn cefnogi llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr ar bob lefel o brosesau gwneud penderfyniadau darparwr, o benderfyniadau gweithredol a phenderfyniadau yn y dosbarth i benderfyniadau strategol ar gyfer y brifysgol gyfan sy'n effeithio ar yr holl fyfyrwyr.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Ble mae ein prosesau gwneud penderfyniadau'n digwydd? Sut rydyn ni'n cynnwys dysgwyr yn y gofodau hynny?

(Lle y bônt yn bodoli) Sut rydyn ni'n cynnwys cynrychiolwyr dysgwyr a/neu gyrff cynrychioli dysgwyr yn y gofodau hynny?

Ar ba adegau ar daith y dysgwr y byddwn yn mynd ati i wahodd dysgwyr i lywio eu profiadau? A oes unrhyw fylchau?

Sut rydyn ni'n gwahodd dysgwyr i roi adborth a chymryd rhan mewn penderfyniadau y tu hwnt i'w profiad dysgu uniongyrchol, megis materion sy'n ymwneud ag ystadau, cymorth dysgu ac adnoddau?

Sut rydyn ni'n cynnwys dysgwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau strategol yn ogystal â materion gweithredol o ddydd i ddydd? A oes unrhyw fylchau?

Ar ba gam yn y broses o gynllunio menter, rhaglen neu strategaeth y byddwn yn ystyried sut a phryd i ymgysylltu â dysgwyr?

## Egwyddor 2: Yn Cael ei Werthfawrogi

**Mae fy narparwr yn gwrando arnaf ac yn fy ngrymuso i lywio fy holl brofiad dysgu drwy gymryd rhan yn ei brosesau gwneud penderfyniadau.**

Mae'r dysgwyr yn gweld tystiolaeth bod eu hadborth wedi cael ei ystyried a bod camau wedi cael eu cymryd lle bu modd. Mae'r amgylchedd dysgu wedi'i ddylunio mewn ffordd sy'n galluogi deialog agored a thryloyw er mwyn croesawu adborth a galluogi'r dysgwyr i gyfrannu'n effeithiol at brosesau gwneud penderfyniadau sy'n ysgogi gwelliant parhaus. Caiff gwybodaeth, arweiniad a chymorth eu cynnig i ddysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr er mwyn hwyluso ymgysylltu a chynrychioli effeithiol. Pan fydd dysgwyr yn aelodau o bwyllgorau a byrddau darparwr, rhoddir hyfforddiant a chymorth iddynt gyflawni eu rolau a chânt gynnig cymorth i baratoi ar gyfer cyfarfodydd, a allai gynnwys cyfleoedd i drafod papurau a chodi cwestiynau. Mae'r hyfforddiant i gynrychiolwyr dysgwyr yn hygyrch ac ar gael mewn fformatau sy'n addas i brofiad y dysgwyr, er enghraifft gan ddefnyddio llwyfannau digidol a gweithgareddau anghydamserol lle y bônt yn briodol. Yn ogystal â chynnwys gwybodaeth ymarferol i gyflawni eu rolau, mae'r hyfforddiant yn helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a hyder i ddysgwyr eu defnyddio fel cynrychiolwyr a thu hwnt.

Caiff dysgwyr eu cydnabod a'u gwobrwyo am gymryd rhan. Er enghraifft, gallai hyn fod drwy gynlluniau cydnabyddiaeth a digwyddiadau dathlu; cynnig bwrsarïau, cymhellion ariannol neu ad-daliadau i liniaru rhwystrau rhag cymryd rhan; neu achredu eu cyfranogiad fel rhan o gwrs, credyd neu fathodyn digidol, neu dystysgrif i gydnabod eu hymdrechion.

Mae'r amgylchedd dysgu'n galluogi dysgwyr i deimlo'n hyderus y caiff eu hadborth ei ystyried mewn modd sensitif a chyfrinachol, yn unol â deddfau diogelu data a pholisïau'r darparwr. Esbonnir yn glir i ddysgwyr y caiff adborth gonest, boed yn gadarnhaol neu'n feirniadol, ei groesawu er mwyn gwella ansawdd eu profiad dysgu, ac na fydd rhoi adborth yn cael effaith ar eu graddau, eu hasesiadau, na'u statws academaidd.

### Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

**Enghraifft 1: Cynhadledd Llais y Dysgwr**

Daw'r enghraifft hon o arferion a welwyd mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Gellir ystyried elfennau o'r arferion hyn ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol, gyda'r bwriad o'u datblygu a'u cymhwyso ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr; er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn fwy ymarferol cynnal sesiynau ar-lein a chyfleoedd anghydamserol ar gyfer rhai dysgwyr.

Cynhelir cynhadledd flynyddol yn ystod tymor yr hydref i groesawu cynrychiolwyr dysgwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd. Rhoddir lluniaeth i'r cynrychiolwyr dysgwyr drwy gydol y dydd, a chânt gefnogaeth i fod yn bresennol drwy gael eu rhyddhau o sesiynau wedi'u hamserlennu. Mae cyllid ar gael ar gyfer y rhai na fyddent fel arfer yn bresennol ar y diwrnod hwn er mwyn talu unrhyw dreuliau ychwanegol yr eir iddynt.

Mae'r gynhadledd yn cynnwys sesiynau hyfforddi er mwyn helpu cynrychiolwyr dysgwyr i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Gall cynrychiolwyr sy'n dychwelyd rannu eu profiadau a mynd ati, ochr yn ochr â'r staff, i roi enghreifftiau o effaith llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr. Caiff cynrychiolwyr eu gwahodd i ymuno â gweithdai ar faterion a phenderfyniadau allweddol sy'n deillio o weithgareddau llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr blaenorol, ac mae'r sesiynau hyn yn cynnwys rhannu llais y dysgwr a datblygu atebion mewn partneriaeth â dysgwyr a staff. Mae camau gweithredu a syniadau sy'n deillio o'r gweithdai'n bwydo i mewn i gynllun gweithredu'r darparwr ar gyfer llais y dysgwr, a gaiff ei drafod yng Nghyngor y Dysgwyr sy'n bwydo i mewn i Bwyllgor Profiad Dysgwyr y darparwr. [3]

**Enghraifft 2: Ymgysylltu rhwng Myfyrwyr-lywodraethwyr a Chadeirydd y Corff Llywodraethu**

Daw'r enghraifft hon o arferion mewn sefydliad addysg bellach; gellir ei chymhwyso at bob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil lle mae cymorth i gynrychiolwyr dysgwyr a dysgwyr-lywodraethwyr yn gwella effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr.

Mae Prifathro'r sefydliad wedi sefydlu perthynas agored a llawn ymddiriedaeth rhyngddo ef ei hun a'r myfyrwyr-lywodraethwyr. Mae perthynas debyg wrthi'n cael ei sefydlu rhwng Cadeirydd y Bwrdd a'r ddau fyfyriwr-lywodraethwr. Ar ôl iddynt gael eu penodi, bydd y myfyrwyr-lywodraethwyr yn cael eu hyfforddi a'u sefydlu gan Glerc y Bwrdd; fel rhan o'r broses hon, byddant yn cael cyfarfod anffurfiol gyda'r Cadeirydd i ddechrau sefydlu eu perthynas. Bydd y Cadeirydd yn trefnu i ymuno â thrafodaeth gyda'r myfyrwyr-lywodraethwyr a'r staff sy'n eu cefnogi er mwyn archwilio'r rôl unigryw a'r heriau cysylltiedig sy'n wynebu myfyriwr-lywodraethwr. Gwneir cytundeb dilynol sy'n nodi sut y bydd y Cadeirydd a'r myfyrwyr-lywodraethwyr yn cydweithio â'i gilydd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y cymorth y gall y Cadeirydd ei gynnig.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Sut rydyn ni'n helpu dysgwyr i ddatblygu'r gallu a'r hyder sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn ystyrlon mewn prosesau gwneud penderfyniadau? Sut rydyn ni'n teilwra hyn i adlewyrchu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol?

Os oes gan y darparwr ddysgwyr-lywodraethwyr, sut y cânt eu helpu i gyfrannu'n effeithiol at brosesau gwneud penderfyniadau?

(Lle y bônt yn bodoli) Sut rydyn ni'n helpu dysgwyr-lywodraethwyr i gyfrannu'n effeithiol at brosesau gwneud penderfyniadau?

Sut rydyn ni'n cydnabod cynrychiolwyr dysgwyr am eu cyfraniadau?

Sut mae dysgwyr yn gwybod ein bod wedi gwrando ar eu hadborth ac wedi gweithredu mewn ymateb iddo? A fyddwn yn cynnwys dysgwyr yn y penderfyniadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'u hadborth lle bynnag y bo modd?

A yw pawb sy'n aelod o bwyllgor/bwrdd yn deall rôl y dysgwr/dysgwyr yn yr ystafell a rôl ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau?

[3] Mae rhagor o wybodaeth am ddulliau o ymdrin â llais y dysgwr yn gyfunol wedi'i chynnwys yn Egwyddor 6.

### Egwyddor 3: Yn Cael ei Ddeall

**Rwy'n gwybod ble a sut i godi syniadau a rhannu meddyliau ynglŷn â phynciau sy'n bwysig i mi a phynciau a gaiff eu codi gan fy narparwr addysg.**

Mae'r llwybrau a'r cyfleoedd ymgysylltu â dysgwyr yn glir. Caiff cyfleoedd eu rhannu â'r holl ddysgwyr. Caiff dysgwyr eu helpu i gymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â phynciau a phenderfyniadau a gynigir gan eu darparwr, a chânt gyfleoedd i gynnig pynciau a phenderfyniadau sydd o bwys iddyn nhw. Mae staff yn ymwybodol o'u rôl o ran ymgysylltu â dysgwyr a gallent gyfeirio dysgwyr at gyfleoedd ymgysylltu.

Caiff y cyfleoedd hyn eu cynnig drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys rhai sy'n agored i'r holl ddysgwyr, megis arolygon a chyfarfodydd neuadd y dref, a rhai lle y gall cynrychiolwyr dysgwyr, neu gyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli), godi a rhannu safbwyntiau cyfunol drwy gymryd rhan yn nhrafodaethau pwyllgorau neu brosesau pennu agendâu. Mae'r darparwr yn esbonio'n glir pa bwyllgorau a grwpiau sydd â chynrychiolwyr dysgwyr arnynt a beth yw lle'r rhain o fewn ei strwythurau llywodraethu ehangach, gan ddangos y llwybrau ar gyfer llais y dysgwr a chymorth i gynrychiolwyr. Mae'r cyfleoedd i ddysgwyr, neu gyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli), weithio gyda'r darparwr i benderfynu ar eu cyfranogiad yn y strwythur llywodraethu yn dangos dull aeddfed o ymgysylltu â dysgwyr.

Caiff llais y dysgwr o arolygon neu weithgareddau eraill i gasglu adborth hefyd ei ddefnyddio i adnabod themâu allweddol sydd o bwys neu o ddiddordeb i ddysgwyr. Caiff y themâu hyn eu harchwilio ymhellach gyda dysgwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) a gallent helpu i ffurfio agendâu ar gyfer trafodaethau gyda dysgwyr a llywio trafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o strwythur llywodraethu'r darparwr.

### Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

**Enghraifft 1: Strategaeth Cynnwys Dysgwyr**

Daw'r enghraifft hon o arferion mewn darpariaeth addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a phrentisiaethau lle roedd canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu strategaethau o'r fath. Gellir ystyried yr enghraifft hon ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil lle mae ymdrin ag ymgysylltu â dysgwyr mewn modd strategol yn helpu i'w wreiddio drwy holl arferion darparwr.

Mae Strategaeth Cynnwys Dysgwyr y darparwr yn amlinellu'r dulliau o ymdrin â llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr i fwydo i mewn i brosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr ac er mwyn i ddysgwyr rannu adborth ar faterion sydd o bwys neu o ddiddordeb iddynt.

Mae'r strategaeth ar gael ar wefan y darparwr ac yn ei amgylchedd dysgu rhithwir. Mae fersiwn ar ffurf diagram o'r dulliau o ymdrin â llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr wedi cael ei chreu. Mae'n dangos yr amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr a sut mae'r rhain yn bwydo i mewn i strwythur a phrosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr. Mae copïau o'r diagram i'w gweld drwy'r gofodau addysgu, ar sgriniau a phosteri, ac yn y Llawlyfr i

Ddysgwyr. Caiff y strategaeth hon ei rhannu â staff fel rhan o weithgareddau sefydlu a hyfforddi er mwyn eu helpu i ddeall pwysigrwydd ymgysylltu â dysgwyr a'u rôl i gefnogi hynny.

**Enghraifft 2: Mentrau a arweinir gan ddysgwyr**

Daw'r enghraifft hon o chweched dosbarth ysgol a gynhelir; mae'n berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol lle y caiff dysgwyr gyfleoedd i godi pynciau sydd o bwys iddynt er mwyn arwain arnynt ar ffurf prosiectau neu fentrau gyda'u darparwr.

Gall yr holl ddisgyblion yn y chweched dosbarth rannu syniadau ac adborth â'u cynrychiolwyr ar y Cyngor Ysgol, a gallent siarad â nhw'n uniongyrchol neu'n ddienw gan ddefnyddio blwch awgrymiadau ar-lein. Caiff y cyfleoedd hyn eu hysbysebu ar bosteri yn ardal dawel y chweched dosbarth ac ar ei borth ar-lein. Bydd cynrychiolwyr o flwyddyn 12 a blwyddyn 13 sydd ar y Cyngor Ysgol yn cyfarfod â Phennaeth y Chweched bob pythefnos i rannu adborth gan ddysgwyr a thrafod pynciau a gaiff eu codi gan yr ysgol.

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, byddant yn tynnu sylw at feysydd allweddol sydd o bwys i ddisgyblion y chweched dosbarth a chymuned eu hysgol, gan gynnwys llesiant a'r amgylchedd. Gan weithio gyda'r staff, caiff y dysgwyr gymorth i arwain prosiectau, digwyddiadau a mentrau codi arian er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u pynciau allweddol drwy'r ysgol ac yn eu cymuned leol. Ymhlith yr enghreifftiau mae digwyddiadau casglu ar gyfer banciau bwyd lleol, ymgyrchoedd ailgylchu sy'n gwneud ailgylchu'n hwyl ac yn hygyrch yn yr ysgol, ac wythnos llesiant lle y cafodd dysgwyr gyfle i gynnal stondinau a digwyddiadau dros dro, gyda chymorth staff a aeth ati i wahodd siaradwyr gwadd ac ymgorffori gweithgareddau mewn sesiynau a addysgir drwy'r ysgol gyfan, gan gynnwys gwahodd dysgwyr y chweched dosbarth i siarad â grwpiau oedran eraill.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Pa mor glir yw ein proses ar gyfer casglu adborth gan ddysgwyr, ei gofnodi ac ymateb iddo?

Sut rydyn ni'n sicrhau bod yr holl staff a dysgwyr yn deall cyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr?

Pa ofodau a chyfleoedd rydyn ni'n eu cynnig i ddysgwyr allu archwilio a rhannu'r pynciau sy'n bwysig iddynt?

Pan gaiff dysgwyr eu gwahodd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, sut y byddwn ni'n galluogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth?

Sut rydyn ni'n rhoi gwybod i'r llywodraethwyr (neu gorff cyfatebol) sut mae dysgwyr wedi codi pynciau a phenderfyniadau neu gyfrannu atynt?

## Egwyddor 4: Yn Gynhwysol

**Mae'r cyfleoedd i mi a dysgwyr eraill gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn adlewyrchu ein hamrywiol anghenion, diddordebau a galluoedd i gymryd rhan.**

Drwy amrywiaeth o gyfleoedd, mae'r gallu i ddysgwyr gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau darparwr yn hygyrch i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae darparwyr yn gweithio gyda'u carfannau dysgwyr amrywiol a'u cyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) i ddeall y ffyrdd y gall dysgwyr gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a sut yr hoffent wneud hynny. Mae'r dulliau sydd wedi'u dylunio i gefnogi'r gweithgareddau ymgysylltu hyn yn adlewyrchu'r dyheadau a'r galluoedd hynny ac yn dileu rhwystrau rhag ymgysylltu lle bynnag y bo modd. Maent yn ddigon hyblyg i gydnabod ymrwymiadau ac argaeledd presennol dysgwyr.

Caiff amrywiaeth yr adborth a'r gynrychiolaeth ei hystyried, ac mae'r darparwr yn ymwybodol o leisiau na chânt eu clywed yn rheolaidd o bosibl. Mae'r darparwr yn cefnogi strwythurau cynrychioli dysgwyr er mwyn ymgysylltu â'r holl ddysgwyr a'u cynrychioli, gan gynnig mynediad at ofodau a chyfleoedd i gyfathrebu â chynulleidfaoedd eang o ddysgwyr lle bynnag y bo modd, a chydnabod a galluogi rôl cyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli). Bydd cyfleoedd ymgysylltu'n targedu grwpiau o ddysgwyr er mwyn sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed, pan fydd hynny'n briodol. Caiff rhieni a gofalwyr dysgwyr eu cynnwys yn y prosesau hyn lle bo angen, er enghraifft ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol y gall fod angen cymorth arnynt i eirioli drostynt eu hunain.

Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr yn gynhwysol yw sicrhau bod darparwyr, a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli), yn deall y wybodaeth ddemograffig am eu dysgwyr drwy brosesau cofnodi a rhannu data effeithiol. Gellir defnyddio dealltwriaeth o ddemograffeg dysgwyr wrth ddylunio a gwerthuso gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr i adnabod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan lywio camau pellach i ymgysylltu'n fwy â'r holl ddysgwyr.

## Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

### Enghraifft 1: Cymdeithasau a rhwydweithiau a arweinir gan ddysgwyr

Daw'r enghraifft hon o sefydliad addysg bellach; gwelir enghreifftiau tebyg mewn addysg uwch lle mae Undeb Myfyrwyr yn cynnig cymorth i glybiau a chymdeithasau myfyrwyr ac yn gweithio gydag arweinwyr myfyrwyr i gasglu adborth a'u cynnwys ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr a'r Undeb Myfyrwyr. Yn yr un modd, gwelir cyfleoedd ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol lle y gall dysgwyr ddod ynghyd mewn grwpiau sy'n gysylltiedig â nodweddion, hunaniaethau a diddordebau dysgwyr, gyda chysylltiadau â llais y dysgwr a chyfleoedd ymgysylltu.

Caiff dysgwyr eu helpu i arwain grwpiau cymdeithasol ac ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig â'u cwrs neu ddiddordeb. Mae'r tîm profiad dysgwyr yn cefnogi'r dysgwyr drwy gynnig mynediad iddynt at gyllid, llwyfannau lle y gallent gyfathrebu â'r gymuned dysgwyr ehangach, a chyfleoedd i logi gofodau ar y campws. Bydd rhai grwpiau dysgwyr yn dewis cyfarfod yn rheolaidd ar y campws, tra bydd eraill yn trefnu nifer bach o ddigwyddiadau

mwy bob blwyddyn, a chaiff cyfarfodydd a fforymau ar-lein eu defnyddio'n helaeth gan yr holl grwpiau. Pan fydd grwpiau'n gysylltiedig â chwrs neu bwnc, gall timau academaidd gynnig cymorth ychwanegol ar gyfer amser yn y dosbarth a mynediad at adnoddau. Bydd rhai grwpiau sy'n gysylltiedig â phynciau'n gweithio gyda thimau academaidd i drefnu digwyddiadau â siaradwyr gwadd a theithiau. Drwy'r tîm profiad dysgwyr, gall y darparwr gyfarfod â dysgwyr lle y maent er mwyn casglu adborth ar eu profiad. Caiff arweinwyr grwpiau eu gwahodd i gynrychioli safbwyntiau eu grwpiau, ac mae rhai grwpiau wedi dewis trefnu cyfarfodydd sy'n cynnwys sesiynau grŵp ffocws neu rannu adborth â'r coleg.

**Enghraifft 2: Arolygon hygyrch**

Daw'r enghraifft hon o leoliad dysgu oedolion yn y gymuned; gwelir arferion tebyg mewn addysg bellach hefyd. Mae cyfleoedd i addasu dulliau o ymdrin â llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil.

Fel rhan o'i gylch blynyddol o arolygon dysgwyr, defnyddiodd y darparwr Lawlyfr Clir a Hawdd Anabledd Dysgu Cymru[4] i ddatblygu arolwg hawdd ei ddeall ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu. Cafodd yr arolwg ei ddrafftio ar y cyd â gweithwyr cymorth dysgu gan ddefnyddio symbolau ac iaith wedi'i symleiddio, gyda'r nod o gyd-fynd â'r themâu o brif arolwg dysgwyr y darparwr.

Aeth y darparwr ati i dreialu'r arolwg gyda grŵp o ddysgwyr o'i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu, er mwyn profi i weld a oedd y fformat yn glir ac yn ddealladwy. Dangosodd yr ymarfer treialu fod angen i rai dysgwyr yn y boblogaeth darged gael mwy o amser i feddwl am y cwestiynau, a bod angen i rai gael help gan staff i ddeall yr hyn a oedd yn cael ei ofyn. Arweiniodd hyn at gyfnod profi estynedig lle yr aethpwyd ati hefyd i geisio barn rhieni a gofalwyr dysgwyr, er mwyn helpu i sicrhau bod yr arolwg mor gynhwysol â phosibl.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Sut rydyn ni'n sicrhau bod yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u lefel, eu modd astudio, eu lleoliad, eu gallu neu eu hanghenion ychwanegol, yn gallu cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau mewn modd ystyrlon? A yw rhai grwpiau o ddysgwyr yn wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn modd ystyrlon?

Pa systemau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith er mwyn dileu rhwystrau rhag ymgysylltu â dysgwyr? A yw'r rhain yn effeithiol?

Sut y gallwn fesur pa mor gynrychiadol yw gweithgareddau llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr er mwyn gallu canfod bylchau a rhwystrau posibl?

[4] https://www.ldw.org.uk/cy/er-resource/llawlyfr-clir-a-hawdd/

### Egwyddor 5: Yn Ddwyieithog

**Rwy'n gallu cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rwy'n cael cyfleoedd i fod yn rhan o ddull fy narparwr addysg o ymdrin â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ffordd y mae'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.**

Gall dysgwyr rannu eu hadborth a chymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eu darparwr gan ddefnyddio'r Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. **Dylai** darparwyr feithrin amgylchedd sy'n cefnogi gweithgareddau i ymgysylltu â dysgwyr yn ddwyieithog, mewn ffyrdd sy'n briodol i'w cyd-destun, gan sicrhau na fydd yr un dysgwyr dan anfantais, yn wynebu oedi nac yn cael ei allgáu oherwydd ei ddewis iaith.

Pan fydd amod Medr ar gyfer y Gymraeg yn berthnasol, **rhaid** i ddysgwyr gael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu, monitro a gwerthuso Strategaeth Iaith Gymraeg darparwr. Bydd y strategaethau hyn yn bwydo i mewn i'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg; hefyd, bydd ysgolion yn gwneud cyfraniad pwysig at y Cynllun Cenedlaethol a **dylent** ymgysylltu â dysgwyr chweched dosbarth wrth ddatblygu eu cyfraniadau.

### Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

#### Enghraifft 1: Y Gymdeithas Gymraeg

Daw'r enghraifft hon o sefydliad addysg uwch; gwelir cymdeithasau tebyg mewn rhai sefydliadau addysg bellach hefyd. Gall cyfleoedd i ddysgwyr ymwneud yn gymdeithasol â'r Gymraeg a diwylliant Cymru gael effaith gadarnhaol ar brofiad y dysgwyr ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil.

Cymdeithas a arweinir gan fyfyrwyr ac a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg yw'r Gymdeithas Gymraeg (neu'r Gym Gym). Mae'r gymdeithas yn cynnig cyfle i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg gymdeithasu a rhwydweithio â'i gilydd ac mewn digwyddiadau rhyng-golegol â chymdeithasau Cymraeg darparwyr eraill. Un rhan allweddol o'r gymdeithas yw dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru a chefnogi ymdeimlad o berthyn ymhlith ei haelodau. Caiff arweinwyr y gymdeithas eu gwahodd i gynrychioli safbwyntiau aelodau mewn cyfarfodydd gyda'r Undeb Myfyrwyr a'r brifysgol ar bob mater sy'n gysylltiedig â phrofiad y dysgwyr ac, yn arbennig, i helpu i ddathlu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gadw mewn cysylltiad agos â chynrychiolwyr cangen y brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

#### Enghraifft 2. Hyrwyddwyr y Gymraeg

Daw'r enghraifft hon o chweched dosbarth ysgol; gwelir rolau tebyg ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol lle y gall cwmpas y rolau a'r strwythurau y byddant yn bwydo i mewn iddynt amrywio.

Bob blwyddyn, caiff disgybl o flwyddyn 12 neu flwyddyn 13 ei ddewis i fod yn hyrwyddwr y Gymraeg. Bydd y staff yn ei helpu i ddeall ac adolygu polisïau a gweithgareddau Cymraeg presennol yr ysgol ac unrhyw ganllawiau cenedlaethol sy'n eu llywio. Drwy gydweithio â staff a disgyblion eraill, bydd yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn nodi dyddiadau allweddol yn y calendr megis Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes

Dwynwen ac yn codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod Genedlaethol a digwyddiadau chwaraeon. Bydd yn cyflawni rôl arwain allweddol yn y gwaith o drefnu gweithgareddau ar gyfer yr Eisteddfod ysgol ac yn gweithredu fel cynrychiolydd i'w gymheiriaid o ran deall anghenion, heriau a disgwyliadau mewn perthynas â'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ei ysgol.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Ydyn ni'n sicrhau bod gwybodaeth am sut i roi adborth a chymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar gael yn Gymraeg?

Ydyn ni'n rhannu ymatebion i adborth gan ddysgwyr yn Gymraeg?

Sut rydyn ni'n sicrhau bod dysgwyr sy'n cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn cael profiad tebyg?

Sut rydyn ni wedi ymgysylltu â dysgwyr, ac wedi ystyried llais y dysgwr, wrth lunio strategaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a diwylliant Cymru? Sut rydyn ni'n ymgysylltu â dysgwyr mewn modd ystyrlon wrth fonitro a gwerthuso'r strategaethau hyn?

### Egwyddor 6: Yn Unigol ac yn Gyfunol

**Yn ychwanegol at y cyfleoedd i mi gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau fy narparwr, fel dysgwyr cawn ein helpu i rannu ein lleisiau â'n gilydd i gymryd rhan yn gyfunol mewn prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn llywio'r profiad dysgu.**

**Gall** cyfleoedd i ymgysylltu â'r holl ddysgwyr yn unigol gynnwys arolygon dysgwyr, grwpiau ffocws, sianeli digidol ac ymgysylltu'n anffurfiol â staff y darparwr. Bydd gweithgareddau ymgysylltu mwy ffurfiol a strategol yn aml yn cynnwys ymdrin â llais y dysgwr yn gyfunol drwy gynrychiolwyr dysgwyr, fforymau a rhwydweithiau ar-lein a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli).

Bydd darparwyr yn helpu dysgwyr i gydgysylltu eu llais cyfunol, gan gynnwys drwy adnabod a galluogi'r gwahanol ddulliau, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, a ddefnyddir gan ddysgwyr i ddod ynghyd â dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cyrff cynrychioli dysgwyr. Mae'r dulliau hyn, ochr yn ochr â lleisiau dysgwyr unigol, yn cael eu defnyddio ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr sy'n gysylltiedig â'r profiad dysgwyr, yn adlewyrchu'r carfannau dysgwyr ac yn hygyrch ac yn cael eu cyfleu'n glir i'r holl ddysgwr fel rhan o ddull cydlynus o ymgysylltu â dysgwyr.

Pan fydd dysgu'n digwydd yn annibynnol, er enghraifft dysgu ar-lein, o bell neu mewn gweithle, **dylai** darparwyr weithio gyda dysgwyr i ddylunio cyfleoedd effeithiol i gynrychioli llais cyfunol. **Gall** hyn gynnwys grwpiau ffocws, rhwydweithiau dysgwyr, cymunedau neu weithgareddau cydamserol ac anghydamserol ar-lein.

Mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr yn teimlo'n llai cysylltiedig â'r darparwr neu'r gymuned dysgwyr; efallai y byddant yn astudio o bell neu o'u gweithle yn bennaf ac y bydd eu cyfleoedd ymgysylltu'n cael eu hwyluso'n amlach drwy gydberthnasau unigol ag aelodau o staff megis asesydd neu diwtor, ond **rhaid** i'w safbwyntiau barhau i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr yn unol ag egwyddorion y Cod. **Rhaid** i ddarparwyr gynnig dulliau strwythuredig i ddysgwyr godi pryderon a rhoi adborth, yn hytrach na bod dysgwyr mewn sefyllfa lle mai'r unig opsiwn yw gwneud hynny drwy diwtor neu asesydd unigol. Mae'n bwysig bod yr amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn adlewyrchu'r amrywiol foddau astudio a phrofiadau dysgwyr.

### Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

#### Enghraifft 1: Llais cyfunol prentisiaid

Daw'r enghraifft hon o'r sector prentisiaethau. Pan fydd dysgwr yn y gweithle, mae'n bosibl mai'r dysgwr hwnnw fydd yr unig brentis sy'n gweithio i'r cyflogwr hwnnw ac y bydd yn llai tebygol o fod yn rhan o gymuned dysgwyr lle y gellir gwreiddio dulliau o ymdrin â llais y dysgwr yn gyfunol.  Bydd dysgwyr ar wasgar mewn rhannau eraill o'r sector addysg drydyddol hefyd, a gallent ddefnyddio modelau tebyg.

Gan mai yn unigol y bydd prentisiaid yn dysgu, drwy arolygon a sgyrsiau ag aseswyr a chyflogwyr y caiff adborth ei gasglu amlaf. Bydd y darparwr yn mynd ati'n systematig i gasglu a gwerthuso adborth drwy'r dulliau unigol hyn er mwyn adnabod themâu a thueddiadau sy'n codi, ac yna gellir eu harchwilio ymhellach mewn grwpiau ffocws a

fforymau dysgwyr, sydd ar gael ar-lein a'r tu allan i'r diwrnod gwaith. Bydd y gweithgareddau hyn yn bwydo i mewn i brosesau ansawdd y darparwr, a chaiff trafodaethau grwpiau ffocws a fforymau hefyd eu defnyddio er mwyn helpu'r darparwr i wneud penderfyniadau.

Mae'r darparwr wedi defnyddio'r cyfleoedd hyn wrth roi meddalwedd e-bortffolio newydd ar waith. Gwnaeth arolygon dysgwyr ac adborth i aseswyr dynnu sylw at heriau yn y system flaenorol a oedd yn creu rhwystrau yng ngweithgareddau'r dysgwyr. Trefnodd y darparwr ddau grŵp ffocws gyda'r nos i drafod yr heriau hyn a'r gofynion ar gyfer system newydd, a chafodd y cyfle hwn ei hyrwyddo i'r dysgwyr drwy eu haseswyr a lwyddodd i gysylltu â phrofiadau unigol dysgwyr o'r system e-bortffolio. I'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol, cafodd crynodeb o'r drafodaeth ei rhannu yn fforwm ar-lein y dysgwyr, lle roedd modd iddynt ychwanegu sylwadau ac awgrymiadau i'w bwydo i mewn i waith cynllunio'r darparwr. Rhoddwyd system newydd ar waith yn seiliedig ar adborth gan ddysgwyr, gwirfoddololodd grŵp o ddysgwyr i dreialu'r system, a pharhaodd yr holl ddysgwyr i roi adborth arni wrth iddi gael ei rhoi ar waith drwy arolygon, eu haseswyr a'r fforwm dysgwyr.

**Enghraifft 2: Undeb Myfyrwyr yn cefnogi cynrychiolwyr myfyrwyr**

Daw'r enghraifft hon o sefydliad addysg uwch lle mae undebau myfyrwyr yn gyrff cynrychioli annibynnol, a'u diben yw cynrychioli a hyrwyddo buddiannau myfyrwyr, fel y nodir yn Neddf Addysg 1994. Mae undebau myfyrwyr i'w gweld mewn rhai sefydliadau addysg bellach hefyd, ond nid ydynt yn annibynnol ar y darparwr fel arfer. Mae'r ddau'n cyflawni rôl bwysig o ran cynrychioli buddiannau dysgwyr o fewn eu cyd-destunau.

Bydd y brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr yn cydweithio mewn partneriaeth ar feysydd sy'n ymwneud â phrofiad y myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys rhannu a dadansoddi data (e.e. o arolygon myfyrwyr) a datblygu cynlluniau gweithredu, polisïau a strategaethau gyda'i gilydd. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd bod yr Ysgol Gelf wedi sicrhau cyllid i adnewyddu ei chyfleusterau. Rhoddwyd gwybod i gynrychiolwyr myfyrwyr o gyrsiau'r ysgol yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Cyswllt Myfyrwyr a Staff ac roedd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr wedi cael gwybod am y cais drwy strwythur pwyllgorau'r brifysgol.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyswllt, cysylltodd Swyddog Addysg yr Undeb Myfyrwyr â'r holl gynrychiolwyr myfyrwyr yn yr ysgol i gadarnhau'r manylion hyd yn hyn, ac i drefnu cyfres o sesiynau galw heibio gyda swyddogion yr Undeb Myfyrwyr ochr yn ochr â Dirprwy Ddeon yr ysgol. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i gynrychiolwyr myfyrwyr ofyn cwestiynau cychwynnol am y cynlluniau a'r amserlenni ar gyfer y gwaith adnewyddu a pha effaith y byddai'n ei chael ar eu profiad dysgu, os o gwbl. Tynnodd y cwestiynau a godwyd sylw at ymdeimlad o ansicrwydd ymhlith myfyrwyr yn yr ysgol a oedd, er eu bod yn edrych ymlaen at gael cyfleusterau newydd, yn ansicr a fyddent yn cael budd ohonynt ac a fyddai'r gwaith yn effeithio ar eu gallu i ddefnyddio adnoddau ac offer arbenigol.

I liniaru'r materion a godwyd, hysbysebwyd cyfres o weithgareddau i'r holl fyfyrwyr yn yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynnig cyfleoedd i fwydo i mewn i'r prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Cafodd yr holl sesiynau eu cynnal ar y cyd rhwng yr Undeb Myfyrwyr a'r ysgol, ac ymunodd swyddogion yr Undeb Myfyrwyr â chyfarfodydd dilynol y Pwyllgor Cyswllt drwy gydol y gwaith cynllunio ac adnewyddu, a gwnaethant hefyd barhau i gynnig cyswllt rhwng y myfyrwyr a Phwyllgor Profiad Myfyrwyr y brifysgol. Pwysleisiodd yr Undeb Myfyrwyr fod angen diogelu profiad y dysgwyr presennol a'u gallu i ddefnyddio adnoddau ac offer i gwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus ac yn unol â'r wybodaeth a roddwyd iddynt am eu cyrsiau. Ymhlith y gweithgareddau ymgysylltu roedd:

- trafodaethau neuadd y dref ar gyfer yr ysgol gyfan
- grwpiau ffocws ar gyfer myfyrwyr a staff er mwyn llywio'r cynlluniau ar gyfer y gwaith
- aelodaeth i'r Undeb Myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr o weithgor y prosiect adnewyddu

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Sut rydyn ni'n sicrhau bod dulliau o ymdrin â llais y dysgwr mewn modd cyfunol yn cynrychioli'r holl ddysgwyr?

(Lle y bônt yn bodoli) Sut rydyn ni'n gwreiddio'r corff cynrychioli dysgwyr mewn cyfleoedd i wneud penderfyniadau fel y llais sy'n cynrychioli'r dysgwyr?

Pa gyfleoedd sydd gennym i ddatblygu dulliau cynrychioli dysgwyr ymhellach?

Pa ddulliau sydd gennym i gasglu adborth unigolion ac ymgysylltu â dysgwyr sydd ar deithiau cwbl annibynnol, er enghraifft y rhai sy'n astudio o bell neu yn eu gweithle yn bennaf?

Sut y gall dysgwyr gynnig mewnbwn i benderfyniadau, adborth neu bryderon – gan gynnwys materion cyfrinachol – yn annibynnol ar eu tiwtoriaid, eu darlithwyr, eu haseswyr neu eu hathrawon?  Sut rydyn ni'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r dulliau hyn?

## Egwyddor 7: Yn Cael Effaith

**Rwy'n cymryd rhan fel rhan o ddeialog barhaus lle y caiff deilliannau a newidiadau eu trafod a'u hadolygu, ac mae pob un ohonom yn gallu gweld effaith hyn ar y profiad dysgu nawr ac ar gyfer dysgwyr y dyfodol.**

Mae cynnwys dysgwyr ym mhrosesau gwneud penderfyniadau darparwr yn mynd y tu hwnt i gasglu adborth ac ymateb iddo mewn modd trafodiadol, tuag at gynnwys dysgwyr yn y camau gweithredu sy'n deillio o hynny ac yn y broses barhaus o werthuso newid. Er y bydd rhai dysgwyr yn cymryd rhan fwy gweithredol mewn proses gwneud penderfyniadau, rhoddir gwybod i'r holl ddysgwyr am drafodaethau a deilliannau.

Pan na ellir gwneud newid y gofynnodd dysgwyr amdano, caiff hyn ei drafod gyda'r dysgwyr a'i gyfleu'n glir ac yn eang. Caiff dysgwyr eu cynnwys yn y broses o ddod o hyd i atebion amgen lle bynnag y bo modd. Mewn achosion lle mae newidiadau'n debygol o ddigwydd dros gyfnod hwy, bydd dysgwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) yn gweithio gyda'u darparwr i adnabod yr effeithiau bwriadedig ar ddysgwyr y dyfodol a sut y gellid eu gwerthuso. Caiff amserlenni ar gyfer newid eu cyfleu'n glir i ddysgwyr, gan gynnwys unrhyw gerrig milltir y gellir eu cyrraedd ar gyfer carfannau presennol.

Er mwyn cynnwys dysgwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau, mae angen i ddysgwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) gael eu cynnwys yn weithredol yn y gwaith o lywio'r camau gweithredu a'r ymatebion i adborth gan ddysgwyr a chael cyfleoedd i roi adborth ar y camau a'r ymatebion hynny mewn deialog barhaus â'u darparwr.

## Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

**Enghraifft 1: "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni"**

Gall yr enghraifft hon fod yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil gan fwydo i mewn i ddulliau ehangach sy'n ymwneud â phwyllgorau, llywodraethu ac ymgysylltu â dysgwyr fel y bo'n briodol. Bydd y dulliau ar gyfer cynrychioli dysgwyr yn amrywio drwy'r sector, a dylid ystyried yr enghraifft hon yng nghyd-destun pob darparwr.

Mae'r darparwr yn hwyluso arolygon rheolaidd i gasglu adborth gan ddysgwyr. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r arolwg, bydd y darparwr yn gweithio gyda dysgwyr, eu cynrychiolwyr a'r corff cynrychioli dysgwyr i bennu camau gweithredu neu ymatebion i adborth gan ddysgwyr. Lle na ellir cymryd camau gweithredu, bydd yr ymateb yn cynnwys cyfathrebu clir a rheoli disgwyliadau. Caiff y cynlluniau gweithredu canlyniadol eu monitro drwy bwyllgorau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r darparwr lle y bydd cynrychiolwyr dysgwyr yn bresennol. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r camau a gymerir, caiff ymgyrch "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" ei lansio. Mae'r ymgyrch yn cynnwys posteri a sgriniau mewn gofodau dysgu, yn yr amgylchedd dysgu rhithwir, mewn negeseuon e-bost at ddysgwyr ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y darparwr. Mae'r ymgyrch yn rhannu enghreifftiau o adborth gan ddysgwyr a'r camau gweithredu

canlyniadol a gaiff eu cynllunio neu'r ymatebion i'r adborth hwnnw. Bydd y darparwr yn gweithio gyda chynrychiolwyr dysgwyr a'r corff cynrychioli dysgwyr i werthuso effaith yr elfennau 'gwnaethom ni' yn yr ymgyrch a pharhau â'r cylch ymgysylltu.

**Enghraifft 2: Cynllun Gweithredu Llais y Dysgwr**

Daw'r enghraifft hon o sefydliad addysg bellach ond gall fod yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol. Mae rhoi cynlluniau gweithredu ar waith a'u monitro mewn ymateb i lais y dysgwr yn enghraifft o ddulliau effeithiol o ymgysylltu â dysgwyr lle y gall dysgwyr gymryd rhan drwy'r dulliau ymgysylltu a chynrychioli yn eu cyd-destun.

Dogfen fyw y mae Pwyllgor Llais y Dysgwr a'r corff cynrychioli dysgwyr yn berchen arni ar y cyd yw Cynllun Gweithredu Llais y Dysgwr. Caiff dadansoddiadau o adborth gan ddysgwyr eu bwydo i mewn i'r pwyllgor er mwyn llywio'r cynllun gweithredu parhaus; ymhlith y ffynonellau mae deilliannau arolygon dysgwyr; cofnodion pwyllgorau adrannau a chyngor y dysgwyr; a chwynion dienw gan ddysgwyr. Bydd y pwyllgor yn cytuno ar y camau gweithredu ac yn eu monitro, gan lunio adroddiad blynyddol i Fwrdd y Llywodraethwyr. Bydd y corff cynrychioli dysgwyr yn hwyluso adborth i'r boblogaeth dysgwyr ehangach drwy gynrychiolwyr dysgwyr a'u dulliau o gyfathrebu â dysgwyr.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Sut rydyn ni'n rhannu ymatebion i adborth gan ddysgwyr â'r holl ddysgwyr yn rheolaidd? Ydyn ni'n cyfathrebu mewn ffyrdd hygyrch?

Pa gyfleoedd rydyn ni'n eu cynnig i ddysgwyr ymateb i benderfyniadau neu gymryd rhan mewn trafodaeth barhaus amdanynt?

Sut rydyn ni'n monitro effaith ac effeithiolrwydd ymatebion i weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr?

Sut rydyn ni'n rhannu'r cylch adborth drwy ein strwythurau llywodraethu? Ydyn ni'n dangos adborth gan ddysgwyr, y camau gweithredu canlyniadol a'u heffaith i'r llywodraethwyr?

Os na ellir gweithredu mewn ymateb i adborth neu awgrymiadau gan ddysgwyr, neu os bydd yn cymryd peth amser i gymryd camau gweithredu, sut y byddwn yn esbonio hyn i'r dysgwyr?

### Egwyddor 8: Yn Cael Digon o Adnoddau

**Mae fy narparwr addysg yn dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau y caiff yr holl ddysgwyr gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.**

Caiff adnoddau eu neilltuo ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd; **gall** hyn gynnwys neilltuo rolau ac amser staff; hyfforddiant ac arweiniad i staff a dysgwyr, neu ofodau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Lle bo undebau myfyrwyr annibynnol yn bodoli, **dylent** gael eu cyllido yn unol â'r canllawiau perthnasol a roddir gan Medr.[5]

Mae'r darparwr yn ymwybodol o'r canllawiau presennol ac adnoddau a ddatblygwyd gan y sector addysg drydyddol ac ar ei gyfer, ac mae'n eu haddasu yn unol â'i anghenion a'i amgylchiadau lleol. Mae darparwyr yn defnyddio rhwydweithiau sector, hyfforddiant ac adnoddau a gyllidir gan Medr i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau.

### Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

#### Enghraifft 1: Hyfforddiant i Gynrychiolwyr

Daw'r enghraifft hon o sefydliad addysg uwch lle mae'r Undeb Myfyrwyr annibynnol yn gyfrifol am ethol, cefnogi a gweinyddu strwythurau cynrychioli. Ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil, mae cymorth a hyfforddiant i gynrychiolwyr dysgwyr yn hyrwyddo dulliau effeithiol o ymgysylltu â dysgwyr.

Yn dilyn y cyfnod o ethol cynrychiolwyr dosbarth, bydd yr Undeb Myfyrwyr yn cynnal sawl digwyddiad hyfforddi ar y campws. Caiff yr holl gynrychiolwyr dosbarth newydd, a'r rhai sy'n dychwelyd, eu gwahodd i'r digwyddiadau hyfforddi, a gaiff eu cynnal ar bob safle addysgu ar amrywiaeth o ddiwrnodau ac amseroedd. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyflwyniadau i strwythurau a ffyrdd o weithio'r Undeb Myfyrwyr a'r brifysgol er mwyn i'r cynrychiolwyr ddeall eu rolau o fewn y rhain. Hefyd, caiff sgiliau ar gyfer bod yn gynrychiolydd effeithiol eu trafod, a rhoddir arweiniad pellach mewn llawlyfr i gynrychiolwyr sy'n cyfeirio at wasanaethau'r Undeb Myfyrwyr a'r brifysgol am gymorth ychwanegol. Yn dilyn y cyfleoedd hyfforddi wyneb yn wyneb, bydd yr Undeb Myfyrwyr yn lansio ei fodiwl hyfforddi ar-lein, a fydd ar gael drwy ei wefan. Bydd yr hyfforddiant ar-lein yn ymdrin â'r un wybodaeth a sgiliau allweddol â'r digwyddiadau wyneb yn wyneb, a bydd y llawlyfr i gynrychiolwyr ar gael ar-lein.

#### Enghraifft 2: Llwyfannau digidol

Mae'r enghraifft hon yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol lle mae'n bwysig cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu a rhoi adborth mewn ffyrdd hygyrch. Bydd llawer o ddarparwyr yn defnyddio Amgylchedd Dysgu Rhithwir i rannu gwybodaeth ac adnoddau â dysgwyr, ac mae'n bosibl y byddant yn cynnig mynediad i

---

[5] Dylai prifysgolion ac undebau myfyrwyr barhau i ddilyn canllawiau diwygiedig Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) ar arfer da wrth ariannu undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth myfyrwyr ochr yn ochr â gofynion ac egwyddorion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Bydd Medr yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys dysgwyr, cynrychiolwyr dysgwyr a darparwyr i gyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru yn unol ag anghenion y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

lwyfannau cydweithio digidol ar gyfer cyfarfodydd a fforymau trafod ar-lein. **Dylai'r** broses o ddewis a defnyddio llwyfannau o'r fath gael ei chynnal drwy ymgynghori â dysgwyr.

Gall dysgwyr ddefnyddio fforymau trafod ar-lein drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir i drafod gyda'i gilydd; rhannu adnoddau sy'n berthnasol i'w pwnc, trefnu cyfleoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'w gilydd am y pynciau y maent yn dysgu amdanynt a'r gwaith y maent wedi bod yn ei gwblhau. Caiff rhai fforymau eu harwain gan staff er mwyn iddynt allu gwneud cyhoeddiadau am newidiadau i ystafelloedd a chyfleoedd sydd i ddod y tu hwnt i'r dysgu sydd wedi'i amserlennu ac i gasglu adborth gan ddysgwyr.

Defnyddir fforymau i gynnal trafodaethau â ffocws pendant hefyd. Pan fydd y darparwr yn cynllunio cyfle neu adnodd newydd, bydd yn defnyddio fforymau trafod i ofyn cwestiynau i'r dysgwyr er mwyn helpu i lywio prosesau gwneud penderfyniadau. Mae amgylchedd fforwm yn galluogi sgyrsiau a syniadau i ddatblygu yn seiliedig ar safbwyntiau amrywiaeth o ddysgwyr.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

A oes gennym aelodau o staff ar bob lefel sy'n gyfrifol am gefnogi dulliau effeithiol o ymgysylltu â dysgwyr?  A yw hyn yn cael ei fynegi'n glir mewn disgrifiadau swydd ac amcanion?

Ydyn ni'n cynnig arweiniad i staff ar y cyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr a sut i'w hwyluso'n effeithiol?

A oes gennym adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer galluogi dulliau effeithiol o ymgysylltu â dysgwyr? Sut rydyn ni'n adolygu ac yn diweddaru'r rhain lle bo angen?

### Egwyddor 9: Yn Cael ei Werthuso

**Mae fy narparwr addysg yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso'r ffordd y mae'n ymgysylltu â ni fel dysgwyr a ph'un a yw hyn yn bodloni ein disgwyliadau ai peidio. Mae'n gweithio gyda ni i adnabod beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wneud yn well, ac i ddatblygu newidiadau er mwyn gwella.**

Mae gwerthuso gweithgareddau llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr yn rhan allweddol o gylchoedd hunanwerthuso, ansawdd a gwelliant parhaus darparwr, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn Fframwaith Ansawdd Medr. Mae adborth gan ddysgwyr ac ymgysylltu â dysgwyr yn rhan allweddol o hyn er mwyn deall lle y cafodd disgwyliadau eu bodloni a lle na chawsant eu bodloni, ac adnabod arferion da a meysydd ar gyfer gwella. **Dylai** cynlluniau ar gyfer gwella gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr gael eu datblygu gyda dysgwyr a chynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd ymgysylltu'n barhaus â dysgwyr yn rhan o bob cam gweithredu. **Dylai** gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr a chamau gweithredu canlyniadol fod yn weledol yn strwythurau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r darparwr er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynnig cyfle i werthuso'n barhaus; **dylai'r** wybodaeth hon hefyd fod ar gael i ddysgwyr, a gellir hwyluso hyn drwy strwythurau cynrychioli a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli).

**Dylai** darparwyr fesur effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr, gan ddefnyddio data o ddulliau casglu adborth gan ddysgwyr. Lle y bônt yn bodoli, mae arolygon llais y dysgwr ar brofiad dysgwyr o weithgareddau ymgysylltu â'u canfyddiadau o'u heffeithiolrwydd hefyd yn ddefnyddiol i ategu prosesau gwerthuso a mesur effaith. Mae ymgysylltu â dysgwyr wrth werthuso gweithgareddau ac ymyriadau'n fodd i archwilio ymhellach yr effaith ar grwpiau targed a charfannau ehangach.

Lle y bônt yn bodoli, **dylai** cyrff cynrychioli dysgwyr gael cyfleoedd i gyflwyno eu gwerthusiad o weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr i'w darparwr. Mae dulliau ymgysylltu aeddfed yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth i'w gwerthuso a phennu'r camau gweithredu canlyniadol.

**Rhaid** i ymrwymiad y darparwr i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau gael eu hadolygu'n flynyddol gyda dysgwyr ac mewn partneriaeth â chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli). **Rhaid** i'r adolygiad hwn gynnwys gwerthusiad o effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr, a gaiff ei gyflwyno mewn adroddiad i Medr bob blwyddyn ynghyd â chadarnhad o'r ymrwymiad diwygiedig.

## Enghraifft/enghreifftiau o arferion:

### Enghraifft 1: Ymateb i Adroddiad Ansawdd Blynyddol yr Undeb Myfyrwyr

Daw'r enghraifft hon o sefydliad addysg uwch lle mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn rhoi cymorth a chanllawiau i undebau myfyrwyr ar gyfer datblygu adroddiadau ansawdd blynyddol[6] (neu adroddiadau cyfatebol). Mae'n bosibl y bydd sefydliadau mewn rhannau eraill o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yn dymuno gweld y canllawiau hyn er mwyn

[6] Adroddiadau Ansawdd Blynyddol (AAB) Cyfarwyddiadau a Thempled yn NUS Connect

eu helpu i lunio crynodeb o'r profiad dysgwyr i fwydo i mewn i brosesau ymgysylltu â dysgwyr a gwneud penderfyniadau a'r gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr.

Bydd y brifysgol yn ystyried Adroddiad Ansawdd Blynyddol yr Undeb Myfyrwyr (mae'n bosibl y bydd gan bob Undeb Myfyrwyr yng Nghymru enw gwahanol i hwn). Adroddiad y bydd yr Undeb Myfyrwyr yn ei ddatblygu gan ddefnyddio tystiolaeth o adborth gan fyfyrwyr yw hwn, ac mae'n disgrifio profiad y myfyrwyr ac yn tynnu sylw at feysydd â blaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygon myfyrwyr, cyfranogiad myfyrwyr mewn pwyllgorau ac adborth a roddwyd yn uniongyrchol i'r Undeb Myfyrwyr. Bydd yr Undeb Myfyrwyr yn datblygu'r adroddiad mewn modd tryloyw, gan ddefnyddio data arolygon ac adborth gan fyfyrwyr, ac adeiladu ar drafodaethau rhwng yr Undeb Myfyrwyr a'r brifysgol drwy gydol y flwyddyn. Bydd y brifysgol yn ystyried yr argymhellion yn ffurfiol yn un o gyfarfodydd y corff llywodraethu, a bydd pwyllgor perthnasol (e.e. Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Pwyllgor Ansawdd Academaidd) yn goruchwylio'r deilliannau. Bydd deilliannau'r adroddiad yn cynnwys prosiectau neu gynlluniau gweithredu, a bydd yr Undeb Myfyrwyr a'r Brifysgol yn monitro cynnydd drwy gydol y flwyddyn academaidd ac yn myfyrio arno yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol nesaf o bosibl.

**Cwestiynau hunanfyfyrio i ddarparwyr**:

Sut mae ein gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr yn datblygu er mwyn parhau i fod yn berthnasol, yn hygyrch ac yn ystyrlon i ddysgwyr y presennol a'r dyfodol? Sut rydyn ni'n cynnwys dysgwyr yn y gwaith o brofi hyn?

Sut rydyn ni'n ymgysylltu â dysgwyr fel rhan o brosesau ansawdd a gwelliant parhaus? Sut rydyn ni'n helpu dysgwyr i ddeall eu rolau yn hyn o beth?

A ydym yn esbonio'n glir i'r llywodraethwyr sut beth yw llwyddiant o ran ymgysylltu'n effeithiol â dysgwyr? Beth fydd yn digwydd os caiff problem ei darganfod?

### Dull Monitro

43. Mae dull Medr o fonitro cydymffurfedd â'r Amodau Cofrestru a Chyllid cysylltiedig, a'r ddyletswydd statudol gyfatebol i chweched dosbarth ysgolion a gynhelir, wedi cael eu datblygu yn unol â'n Dull Rheoleiddio.

44. Ar gyfer darparwyr sydd wedi'u cofrestru ac a gyllidir, mae'r gofynion cydymffurfio a'r dulliau y bydd Medr yn eu defnyddio i fonitro cydymffurfied wedi'u nodi yn yr Amod Cofrestru a'r Amod Cyllido cysylltiedig. Nod yr adran hon o'r Cod yw cynnig eglurder pellach ynghylch y mathau o dystiolaeth a gaiff eu defnyddio at ddibenion monitro.

45. Ffurflen Sicrwydd Flynyddol pob darparwr fydd y brif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn. Am y flwyddyn academaidd lawn gyntaf pan fydd y Cod yn berthnasol i ddarparwr, bydd y Ffurflen Sicrwydd Flynyddol yn gofyn am dystiolaeth o ddatblygu a chyhoeddi'r ymrwymiad ymgysylltu â dysgwyr yn unol â gofynion y Cod. Ym mhob blwyddyn ddilynol, bydd y Ffurflen Sicrwydd Flynyddol yn gofyn am dystiolaeth o gyhoeddi'r ymrwymiad a thystiolaeth bod y darparwr wedi'i adolygu yn unol â gofynion y Cod. Mae Atodiad A yn cynnwys strwythur enghreifftiol ar gyfer yr ymrwymiad ac awgrymiadau ar gyfer penawdau i'w cynnwys mewn crynodeb o'r adolygiad.

46. Os na chaiff gofynion y Cod eu bodloni, neu os cyfyd pryderon drwy'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno neu sydd ar gael i Medr, bydd swyddogion Medr yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt ymgysylltu â'r darparwr a'i ddysgwyr. Os na ellir dangos cysondeb ac os bydd y dystiolaeth yn dangos nad yw dulliau effeithiol a mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wedi'u gwreiddio ac yn cael eu cefnogi gan y darparwr, mae'n bosibl y bydd angen i Medr gymryd camau rheoleiddio a helpu'r darparwr i gydymffurfio â gofynion y Cod.

### Casglu tystiolaeth yn barhaus:

47. Yn Fframweithiau Rheoleiddio ac Ansawdd Medr, byddwn yn defnyddio data a thystiolaeth fel rhan o'n gweithgareddau monitro a'r Asesiad Risg Darparwyr. Er ei bod yn bosibl na fydd y setiau data a thystiolaeth hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, gallent lywio'r ffordd y byddwn yn monitro cydymffurfedd â'r Cod ac yn gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr. Er enghraifft, pan fydd amodau yn ei gwneud yn ofynnol datblygu strategaethau neu gynlluniau sy'n effeithio ar y profiad dysgwyr, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth o ymgysylltu â dysgwyr.

48. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn ystyried tystiolaeth sydd ar gael yn rhwydd i Medr drwy'r dulliau canlynol:

- deilliannau arolygon cenedlaethol o ddysgwyr, mewn achosion lle bo'r deilliannau'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr
- ymgysylltu â dysgwyr a darparwyr ar lefel sector a darparwyr i adolygu effeithiolrwydd ac effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys adborth gan gyrff sy'n cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli)
- deilliannau sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr o waith arolygu, adolygu ac ymgysylltu a gweithgareddau eraill a gyflawnir gan Estyn neu’r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch (QAA)

- monitro data ar gwynion a dadansoddi cynnwys cwynion a gohebiaeth a gaiff Medr
- gwybodaeth sy'n deillio o Ddigwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd mewn achosion sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr

49. Dim ond os cyfyd pryderon ynglŷn â chydymffurfedd â'r Cod, gan gynnwys drwy unrhyw adborth uniongyrchol i Medr gan ddysgwyr neu gyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) y byddwn yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol.

50. Bydd swyddogion Medr yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu i ddarparwyr a'u dysgwyr na fu'n ofynnol iddynt gyfarfod â ni fel rhan o'n gweithgareddau monitro. Lle bynnag y bo modd, caiff cyfarfodydd o'r fath eu cynnal ar y cyd â swyddogion o bob rhan o Medr er mwyn lliniaru'r baich posibl ar ddarparwyr a dysgwyr. Bydd ymgysylltu hefyd yn digwydd mewn grwpiau, drwy rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli yn y sector, fel rhan o brosiectau a gyllidir gan Medr a thrwy weithgareddau llais y dysgwr Medr. Bydd ymgysylltu â darparwyr a dysgwyr yn helpu Medr i werthuso effaith ac effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr a'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, gan gynnig cyfleoedd i rannu arferion ac adnabod themâu a ddaw i'r amlwg ar gyfer arweiniad a chydweithio.

## Ymyriadau Rheoleiddio

51. Caiff ymyriadau rheoleiddio mewn achosion o beidio â chydymffurfio neu achosion tebygol o beidio â chydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr eu cyflawni yn unol â Dull Rheoleiddio Medr. Gan fod ymgysylltu â dysgwyr yn un o gonglfeini'r Fframwaith Ansawdd, bydd achosion o beidio â chydymffurfio â'r Cod hefyd yn cael eu hystyried mewn perthynas â chydymffurfedd â'r Fframwaith a phrosesau Asesiad Risg Darparwyr ehangach Medr.

52. Bydd Medr yn dathlu effaith gadarnhaol gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr drwy hwyluso cyfleoedd i rannu arferion effeithiol a chydweithio.

53. Os caiff achos o beidio â chydymffurfio ei ddarganfod, ymdrinnir ag ef yn gymesur drwy ymgysylltu â dysgwyr a'u cyrff cynrychioli (lle y bônt yn bodoli) a darparwyr ac archwilio tystiolaeth ymhellach. Mae'n bosibl y bydd Medr yn gofyn i'r darparwr fynd ati ar y cyd â dysgwyr i ddatblygu cynlluniau gweithredu a fyddai'n cael eu monitro drwy weithgareddau ymgysylltu.

54. Ar ben hynny, gall achosion parhaus a difrifol o beidio â chydymffurfio â'r Cod arwain at ymyriadau fel y nodir yn y Dull Rheoleiddio.

55. Mae Medr yn bwriadu i'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr gefnogi gwelliant parhaus o ran ymgysylltu â dysgwyr a'i nod yw datrys pob achos o beidio â chydymffurfio drwy weithio mewn partneriaeth, gyda chymorth ac arweiniad ar gael drwy Medr a'r prosiectau a gyllidir ganddo.

## Atodiad A Strwythur Enghreifftiol ar gyfer Ymrwymiad i Ymgysylltu â Dysgwyr

**Cyflwyniad**

**Dylid cynnwys:**

- Diben yr ymrwymiad – pennu ac egluro'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
- Cydnabod cyfrifoldebau'r darparwr yn unol â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ac unrhyw ofynion rheoliadol ychwanegol
- Amlinellu pa ddysgwyr y mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol iddynt *(holl ddysgwyr darparwr X, dysgwyr ar bob lefel, trefniadau breinio/is-gontractio)*
- Gwybodaeth am y ffordd y cafodd yr ymrwymiad ei ddatblygu, gan bwy, rôl dysgwyr gan gynnwys cyrff cynrychioli a/neu strwythurau cynrychioli eraill
- Cadarnhad bod yr ymrwymiad wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan gorff llywodraethu'r darparwr a'r corff cynrychioli dysgwyr, lle bo un yn bodoli (gan gynnwys y gymeradwyaeth)

**Gwreiddio a chefnogi gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr**

- Strwythurau a dulliau ymgysylltu â dysgwyr
- Cyfleoedd ar waith i ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau

**Cyfeirio**

- Dolenni a chyfeiriadau at wybodaeth berthnasol arall, e.e. Siarter Myfyrwyr, Cytundeb Cydberthynas rhwng y darparwr a'r corff cynrychioli dysgwyr, strategaeth/polisi perthnasol, cynllun gweithredu sy'n deillio o adolygiad

Dyddiad cyhoeddi a dyddiad yr adolygiad nesaf o'r ymrwymiad

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**